



Bodleian Libraries

UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

<http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks>



This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

ADGOFION HIRAE THOG
AM Y PARCH
MICHAEL ROBERTS
PWLLELI




289
0 19

Bt. from J. E. Young.

289 e .49

William Jones
9 Snowdon St.



ADGOFION
HIRAETHOG

AM
Y

Parch.

MICHAEL
ROBERTS,
PWLLHELI.



Liverpool:

HUGH EVANS,

CAMBRIAN PRINTING WORKS, 44 STANLEY ROAD.

MDCCCIII.

BUJLEIAN
P
15 NOV 1965
LIBRARY

Y MAE yr ADGOFION dilynol yn mhlith y pethau diweddaf a ysgrifennodd yr awdwr (tua 1880), a bu y gwaith o'u hysgrifenu yn llonder ac yn ddifyrwch iddo yn nghanol oriau y nos, pan y blinid ef gan anhunedd a phoen.

Pan ysgrifennwyd yr ADGOFION, nid oedd yr un Cofiant i'r Parch. Michael Roberts wedi ei gyhoeddi, ac aeth tair blynedd heibio cyn yr ymddangosodd Cofiant iddo yn y flwyddyn 1883, gan y Parch. John Jones, F.R.G.S., Pwllheli. Rhydd hyn esboniad ar y sylw a welir ar tudal. 13-14 yn nghylch prinder y sylwadau cyhoeddus a wnaed am dano, oddigerth yr hyn a ymddangosodd yn *Hanes Methodistiaeth Cymru* gan y diweddar Barch. John Hughes, Mount Street, Liverpool, ac yn hanes bywyd y diweddar Barch. John Jones, Talsarn, gan y diweddar Barch. Dr. Owen Thomas, Liverpool.

Bwriadai Hiraethog i'r ADGOFION hyn gael eu dilyn gan Adgofion eraill, cyfres o ba rai yr oedd yn ei fryd eu hysgrifenu dan y teitl "Tŵr y Cedyrn a fu wŷr enwog gynt," ond fe'i lluddiwyd gan henaint ac afiechyd i gyflawni ei fwriad. Rhoddasai y copi o'r ADGOFION hyn i'w gadw, yn nghydag ysgrifau eraill sydd yn ein meddiant, i'w cyhoeddi pan fernid hyny yn briodol.

Gan fod bellach ugain mlynedd wedi myned heibio er pan y cyhoeddwyd Cofiant i'r diweddar Barch. Michael Roberts yn Mhwllheli, teimlir fod yr adeg wedi dyfod i'r ADGOFION hyn gael ymddangos trwy'r Wasg am y tro cyntaf, yn nghyda'r Cywydd a gyfansoddwyd gan Hiraethog am yr oedfa hynod yn Llanrwst, y sonir am dani ar tudal. 28-33. Am yr oedfa hon, gwelsom y sylw canlynol yn llawysgrif Hiraethog:—"Yr wyf wedi methu "(er ceisio lawer gwaith) a galw dim oll "i gof am Sassiwn Llanrwst ond yr oedfa "hono yn unig, na phwy oedd y pregeth-

“wyr, na beth oedd y testynau, gyda’r
 “eithriad fod y Parch. John Elias yn
 “pregethu am ddau o’r gloch; llyncasai
 “oedfa y boreu y cwbl iddi ei hun,—am
 “hono yn unig yr oedd y siarad ar y
 “ffordd wrth fyned adref y noson hono.”

Yr ydym yn cyflwyno’r gyfrol fechan hon i’r Cymry darllengar, gan hyderu y teimlant ddyddordeb ynddi, ac y rhoddir derbyniad helaeth a chroesawgar iddi. Os na siomir ni yn ein dysgwyliad, bydd yn anogaeth i ni gyhoeddi ychwaneg o ysgrifau Hiraethog nad ydynt hyd yn hyn wedi ymddangos trwy y Wasg.

Dylem hysbysu mai Hiraethog ydoedd awdwr yr erthygl olygyddol yn yr *Amserau* am Chwef. 8fed, 1849, o’r hon y dyfynodd yn helaeth yn ei ADGOFION.

Y CYHOEDDWYR.

Medi, 1903.

CYNWYSIAD.

| | <i>Tudal.</i> |
|--|---------------|
| <i>Arweiniad</i> - - - - - | 9 |
| <i>Pennod I. Adgofion y Bachgen</i> - | 13 |
| <i>Pennod II. Adgofion y Llanc</i> - - | 27 |
| <i>Pennod III. Yn y Gymdeithasfa</i> - | 35 |
| <i>Pennod IV. Y Tymor Tywyll</i> - - | 57 |
| <i>Pennod V. Y Diwedd</i> - - - | 75 |
| <i>Cywydd ar yr Adgofion</i> - - - | 93 |

GWALL.—Tudal. 25, llinell 4: yn lle deuddeng
mlynedd a thrigain, darlener deng
mlynedd a thrigain.

ARWEINIAD.

BU yn mryd yr ysgrifenydd er ys talm o amser bellach i grynhoi briwsion ei adgofion personol am rai o'r "cedyrn fu wyr enwog gynt," fel addurniadau dysglaer y pwlpud efengylaidd yn Nghymru, i'w doddi ar gael ac ar gadw i'r rhai a ddel ar ol, wedi iddo ef syrthio i dir dystawrwydd ac ebargofiant. Yn awr, dyma y pin yn ei law, a'r papur o tani, yn barod, y naill i gyfranau, a'r llall i dderbyn a chadw, yr hyn a rodder ato, erbyn y delo galw am dano.

Y mae gwasanaeth y swydd hon hefyd wedi ei osod fel yn rhwymedigaeth arnaf gan gymhellion lawer oddiallan, Cymreig, a rhai Seisnig hefyd. Ryw dair neu bedair blynedd yn ol, yr oeddwn yn bresenol mewn cyfarfod blynyddol yn Soar, capel y Parch. F. Samuel, Abertawe. Yr un Sabboth yr oedd y Parch. W. Cuthbertson, Bishop Stortford pryd hwnw, a chadeirydd etholedig cyfarfodydd blynyddol Undeb

Cynulleidfaol Lloegr a Chymru am y flwyddyn ddilynol, yn gweinyddu i'r gynulleidfa Seisonig yn Walter's Road, yr un dref. Boreu dydd Llun, galwodd Mr. Cuthbertson yn nhŷ Mr. Samuel, lle yr oeddwn yn llettya, ac yn nghwrs yr ymddyddan a fu rhyngom, dywedodd fod ganddo ddau beth ar ei feddwl i'w cymell arnaf—un oedd, ar fod i mi ysgrifenu fy adgofion am gynifer o bregethwyr Cymru ag y daethwn i gydnabyddiaeth bersonol â hwy; a'r llall oedd, cyhoeddi cyfrol neu ddwy o'm pregethau. Y mae hynny weithian wedi ei gyflawni, mewn rhan, yn y "Koheloth." Wedi iddo fyned i lawr o'r llofft lle yr eisteddem, dychwelodd yn ei ol drachefn, a dywedodd, "*I am anxious to impress upon your mind what I have said to you—don't forget it, but do it. Do you promise me?*" Addewais y gwnawn, gan ychwanegu, os gwneid, na allasai efe (Mr. C.) wneyd dim ohono gan mai yn Gymraeg yr ysgrifenedid ef, "*we can have it translated,*" eb efe.

Synais ar y pryd ddarfod i'r cyfryw beth ddyfod erioed i goryn Sais i feddwl am dano, a theimlwn ei anogaeth fel yn symbyliad i'r duedd oedd ynof er yn hir cyn hyny at y gorchwyl; a rhwng y cwbl, y duedd hono, ac anogaeth yr estron, a chymhelliadau llawer o frodyr a chyfeillion draw ac yma ac o wahanol enwadau, ni chefais lawer o "lonydd yn yr ysbryd" hyd nes y penderfynais gynyg ar y gorchwyl hwn sydd yn awr mewn llaw genyf. Teimlwn y gallai fod yr aml gymhellion hyny yn awgrymiadau rhagluniaethol arnaf i ymgymeryd âg ef. Fe wêl y darllenydd, a dalied hyny yn ei gof, mai nid *cofiant* bywyd y gwrthrych yr amcenir traethu am dano yma, yw hyn o waith, ond adgofion personol yr ysgrifenydd ei hun am dano, ond darfod iddo yn achlysurol gasglu ambell i loffyn oddiar feusydd eraill. Ac yn awr, ddarllenydd, dyna yr allwedd i ti agor dôr porth Tŵr y Cedyrn hwn âg ef, a myned iddo os mynni.



PENNOD I.

Adgofion y Bachgen.

DYGIR y cadarn, y mae ei enw wedi ei ddodi uwch ben y Porth hwn, dan sylw yn gyntaf un (a dichon mai efe fydd yr olaf un hefyd) oherwydd, yn gyntaf peth, mai efe oedd un o'r rhai cyntaf oll a dynodd fy sylw a'm serch ato fel pregethwr, pan oeddwn yn fachgenyn tuag wyth mlwydd oed.

Yn ail, oherwydd mai efe oedd *yr unig* un o gedyrn y weinidogaeth yn y tymor boreuol hwnw o'm bywyd, yn yr enwad y perthynai efe iddo, y bu cydnabyddiaeth a chyfeillgarwch personol rhyngof fi âg ef.

Ac yn drydydd, oherwydd ddarfod iddo rywfodd gael ei ddodi a'i adael i huno yn ei fedd heb ond i ychydig—ychydig mewn cymhariaeth i'w deilyngdod ef—o sylw cy-

hoeddus gael ei dalu i'w goffadwriaeth. Yr ychydig hwnw a wnaed yn *Hanes Methodistiaeth Cymru* gan y diweddar Barch. J. Hughes o Liverpool, ac yn hanes bywyd y diweddar Barch. J. Jones, Talsarn, gan y Dr. Owen Thomas, ac y mae y cyfeiriadau hyny ato, hyd y maent yn cyraedd, yn bwrpasol a tharawiadol iawn. Yn ei farwnad ardderchog iddo, yn mhen amryw flynyddau wedi ei farwolaeth, dywed y diweddar Emrys o Borthmadog:—

Awen Cymru, cywilyddia,
Pa le buost yn ymdroi?
Er pan hunodd Michael Roberts
Mae blynyddoedd wedi ffoi;
Cenaist alarnadau llyfnion
I rai dinod yn eu dydd,—
Gwelaist gladdu seraph Cymru
Heb un deigryn ar dy rudd!

Cyn yr elom yn mlaen o'r porth i ystafell ein hadgofion am y gwrthrych y traethwn am dano, dylem grybwyll mai mab oedd Michael Roberts i'r diweddar Barch. John Roberts, brodor o sir Gaernarfon, yr hwn a symudodd i fyw i Langwm, sir Ddinbych, ar achlysur ei briodas â'i ail wraig. Bu

yntau yn weinidog parchus a defnyddiol iawn am lawer o flynyddau gyda'r Trefnyddion Calfnaidd, ac yn bregethwr cymeradwy iawn, ond nid i'w gymharu â'i frawd Robert Roberts o Glynog, a'i fab Michael. Achwynid arno yr arferai fod yn llawdrwm ar bregethwyr ieuainc yn fynych. Pan oedd Henry Rees, yn fuan wedi iddo ddechreu pregethu, dan arholiad mewn Cyfarfod Misol a gynhelid yn Ninbych yn y fl. 1819, disgynodd y gwr o Langwm fel barcut arno, a phlanodd ei ewinedd yn ddwfn ynddo, fel yr oedd y bachgen yn ofni ac yn crynu ger ei fron. Yr oedd ei hen feistr, yr hybarch T. Jones, wedi dychwelyd i Ddinbych o Syrrior i fyw ychydig cyn hyny, ac yn bresenol yn y cyfarfod hwnw, ond yn bur lesg a gwael ei iechyd. Teimlai ei hen feistr yn ddwys iawn dros ei ddiweddar was Harri. Cyfododd ar ei draed a'i ddagrau yn llifio, a dywedai, "Harri bach, paid tori dy galon, fe'u syni di hwy oll eto cyn hir," ac felly y bu. Tynodd y barcut ei ewinedd ato yn union ar hyny,

a dechreuodd lochi a thynu ei law dros ben Harri. Nid oedd dim o'r gerwindeb hwn yn ei frawd o Glynog, meddid; ac yn hyn hefyd yr oedd ei nai o Bwllheli yn debycach i'w ewythr nag oedd i'w dad.

Ganwyd Michael Roberts yn mhlwyf Llanllyfni yn y fl. 1781. Symudodd i Benmorfa i gadw ysgol yn fuan wedi iddo ddechreu pregethu, ac oddiyno i Bwllheli pan oedd o ddwy i dair ar hugain oed. Yr oedd wedi dechreu pregethu bum' neu chwe' mlynedd cyn hynny, pan oedd tua 17 ml. oed. Felly yr oedd efe "er yn fachgen yn gwybod yr Ysgrythyr Lân," ac yn dechreu pregethu a dysgu yr "Ysgrythyr Lân" i eraill. "Nid gormod," medd awdwr *Methodistaeth Cymru* (Cyf. II. tud. 185), "fyddai dywedyd ei fod mor gyfarwydd yn yr Ysgrythyrau a neb o'i frodyr. Rhyfeddol o ddysglaer fyddai ei esboniadau ar ranau o'r Beibl."

Bu farw yn Ionawr, 1849, a chladdwyd ef yn mynwent Deneio, gerllaw Pwllheli.

Yn ei ddilyn i'w fedd, yr oedd y dyrfa fwyaf lluosog a mwyaf galarus a welsai tref Pwllheli erioed cyn hyny ar achlysur claddedigaeth yr un o'i meibion.

Dranoeth i ddydd ei farwolaeth, wedi clywed y newydd galarus, ysgrifennodd golgydd yr hen *Amserau* erthygl olygyddol arno, yr hon a ymddangosodd yn y papyr hwnw yr wythnos ganlynol. Dygir detholion o'r erthygl hono i mewn yn achlysurol fel yr elom yn mlaen. Dywed ef fel hyn: “Dyma un arall o gedyrn gweinidogaeth “efengylaidd Cymru wedi syrthio! un o “ddolenau cydiol gweinidogaeth yr oes ddi- “weddaf a'r oes bresenol wedi tori! Daeth “ef allan cyn i dân y diwygiad trwy Harris “a Rowlands oeri na lliniaru llawer. Dis- “gynasai gwlaw graslawn athrawiaeth yr “efengylwr o Langan, ac eraill o'r oes “hono, ar ei ben. Taniesid ei enaid gan “hyawdledd angerddol ei ewythr o Glynog “lawer gwaith, ‘ac ato yntau y dygwyd “gair yn ddirgel, a'i glust a glywodd beth

“‘ohono.’ Safodd i fyny yn ochr Jones,
“Edeyrn; Richardson o Gaernarfon, Llwyd
“ac Elias o Fon, ac eraill oeddynt yn
“cydlafurio â hwy. Syrthiasai pob un o
“honynt i’r bedd o’i flaen ef, ac yn awr
“yntau hefyd a fu farw; do, efe a fu
“farw, dyna’r newydd trwm sydd yn taro
“ar glustiau a chalonau llaweroedd trwy
“y wlad heddyw. Y mae y llygad crwn,
“perlog hwnw y tywynai dealltwriaeth
“graff, treiddgarwch hylm, ac athrylith
“dryloew mor nodedig ynddo, wedi cau i
“beidio agor mwy hyd y dydd yr agorir
“y beddau; a’r llais treiddiol, pereiddfwyn
“hwnw a swynai ac a doddai galonau
“miloedd lawer gwaith, wedi dystewi heb
“obaith i’w glywed mwy,” &c., &c.

Ond bellach at yr adgofion; ac yn gyntaf, adgofion y plentyn. Yr adgof cyntaf sydd genyf am dano oedd yn y fl. 1810, pan oeddwn yn wyth mlwydd oed, pan ddaethai ef i Lansannan i bregethu ar noson waith, y tro cyntaf iddo ef, a’r tro

olaf hefyd hyd y gwn i. Galwasai y cyhoeddwr, y Sabboth blaenorol, sylw y gynulleidfa at y ffaith fod y pregethwr a ddysgwylid yno y noson a'r noson yn nai i'r diweddar Robert Roberts o Glynog, "ac y mae nhw'n dweyd," meddai, "ei fod yn gystal pregethwr a'i ewythr." Yr oedd hyny yn ddigon i sicrhau cynulleidfa fawr o wrandawyr am y noson hono beth bynag. Nid oedd ond tuag wyth mlynedd er pan fuasai farw Robert Roberts, ac yr oedd y cof am dano yn fyw iawn drwy y wlad bob cwr ohoni. Y noson a ddaeth, a daeth cynulleidfa fawr o wrandawyr awyddus yn nghyd, a daeth y pregethwr hefyd.

Y mae yn agos i ddeng mlynedd a thrigain wedi myned heibio er hyny, ac "yn nyddiau ein blynyddoedd y mae deng mlynedd a thrigain." A beth wedyn? "Ac os," &c., &c. Fodd bynag, y mae ychydig o adgofion am yr oedfa hono yn glynu yn y meddwl hyd y pryd hwn. Y

mae un adgof yn ymgyfodi ynof y funyd hon, ac yn hawlio cael y fraint o ymddangos yn y fan hon. Yr oeddwn i a'm brawd Henry yn dychwelyd gyda'n mam o oedfa yn Tanyfron un noson waith ychydig cyn y noson yr oedd Michael Roberts i fod yn Llansannan, ac ar y ffordd, wrth bont Gwenllifion, gofynodd Henry i'w fam, gan ddywedyd, "Mae nhw'n dweyd fod y gwr oedd yn pregethu heno yn debyg iawn i Robert Roberts. Be ydych chwi yn feddwl?" "Nac ydyw o," oedd ei hateb, "ddim yn y byd yn debyg iddo, ac nid oes neb arall yn debyg iddo mwy nag yntau, ac nid wyf fi'n dysgwyl gweled na chlywed neb byth yn debyg iddo. Y mae nai iddo i fod yn Llansannan yn fuan, ni chlywais i mo hono ef eto, ac mae nhw'n dyweyd fod hwnw'n debyg iddo. Prin 'rwyf fi'n dysgwyl ei gael felly; nid yw ei frawd o Langwm ddim byd yn debyg iddo, beth bynag am ei nai o Bwllheli."

Bellach at yr oedfa y cyfeiriwyd ati. Y testyn oedd Ephesiaid v. 14: "*Oherwydd*

paham y mae efe yn dywedyd, deffro di yr hwn wyt yn cysgu, a chyfod oddiwrth y meirw, a Christ a oleua i ti." Y peth cyntaf a dynodd sylw y bachgen oedd person a llais y pregethwr. Dysgwyliasai ef gael gweled gwr tâl, cadarn gryf o gorpholaeth, ac iddo lais fel udgorn, yn cyfodi o flaen y gynulleidfa; yn lle hyny, gwelai un eiddil, gwanaid yr olwg arno, llwyd ond hawddgarol ei wedd, o daldra canolig, a llais dystaw a main, ond treiddgar, hygryw, a melusber ei dôn. Felly, yn siomedigaeth y troes dysgwyliadau dychymygol y bachgen ar y dechreu. Wedi i'r pregethu fyned yn mlaen ychydig, enillodd sylw a serch y bachgen yn fawr. Llais y pregethwr yn benaf a ogleisiai ei deimlad, ond yn raddol denwyd y gwrandawr ieuanc gan swyn y llais i dalu sylw i'r hyn a lefarai efe; a'r peth cyntaf a lynodd yn y côf o'r bregeth oedd, ei adroddiad o'r ymadrodd cyntaf yn y testyn, wedi iddo ddechreu twymno yn ei waith, "*Y mae Efe yn dywedyd.*" "Pwy sydd yn dywedyd?"

“Wrth bwy y mae Efe yn dywedyd? Beth
“y mae Efe yn ddywedyd? *Efe sydd yn*
“*dywedyd* am y goleuo yma, y goleuni ei
“hun, y ‘goleuni mawr,’ haul y cyfiawnder,
“‘y gwir oleuni sydd yn goleuo pob dyn
“ar y sydd yn dyfod i’r byd,’ a’r bywyd
“oedd oleuni dynion. Ar ddyn ac i ddynion
“y mae y goleuni hwn yn tywynu. Aeth
“myrddiynau o angelion i dywyllwch pechod
“a damnedigaeth fel dynion, ond ni thy-
“wynodd pelydryn o’r goleuni hwn erioed
“ar eu cyflwr hwy, ‘ac ni welant hwy
“‘oleuni byth.’ Y goleuni sydd yn goleuo
“llygaid meddyliau ydyw; ni thywynodd yr
“haul a welsoch ar yr awyr gyneu un
“pelydr o oleuni i fyd y meddwl erioed.
“Yr Haul a wnaeth yr haul hwnw sydd yn
“gallu gwneud hyn. Efe sydd yn gallu
“tywynu goleuni ar y byd ysbrydol sydd o
“*fewn* dyn, ac ar y byd ysbrydol a thra-
“gwyddol sydd o *flaen* dyn. ‘Deffro di yr
“‘hwn wyt yn cysgu,’ ac y mae hwnw yma
“heno, yn cysgu mewn anystyriaeth a
“diofalwch, ei feddwl, a’i gydwybod, a’i

“galon yn cysgu, yn cysgu yn y perygl
“mwyaf, yn cysgu fel un ar ben yr hwyl-
“bren uwchben y dyfnder mawr; neu yn
“cysgu a’r tŷ ar dân. Deffro!—agor dy
“lygaid, edrych, cyfod, ‘a Christ a oleua i ti,’
“a oleua i ddangos y perygl ofnadwy yr
“wyt ynddo, a’r ffordd i ti ddianc ohono.
“Eto, ti y mae tywyllwch cydwybod euog
“yn dy ddychrynu, ofn a thywyllwch
“marwolaeth yn dy amgylchynu,—cyfod,
“agor dy lygaid yn y fan yna, ‘a Christ
“‘a oleua i ti.’ ‘Y bobl oedd yn rhodio
“mewn tywyllwch a welsant oleuni mawr, ac
“‘i’r rhai oedd yn eistedd mewn tywyllwch
“‘a chysgod angau y cyfododd goleuni
“‘arnynt,’—goleuni gwybodaeth, bywyd ac
“iachawdwriaeth. Eto, ti yr hwn wyt ‘yn
“‘ofni yr Arglwydd ac yn gwranddo ar lais
“‘ei was ef,’ ac eto fe ddichon ‘yn rhodio
“‘mewn tywyllwch ac heb lewyrch iddo,’
“na ddigalona, ‘gobeithia yn yr Arglwydd,
“‘ac ymddiried yn dy Dduw.’ ‘Crist a
“‘oleua i ti,’—a oleua i ti er symud dy
“ofnau a’th amheunon, ac i ddwyn tang-

“nefedd a thawelwch i’th enaid ‘truan a
“‘helbulus gan y dymhestl.’ Crist a oleua
“i ti yn holl drallodion a phrofedigaethau
“bywyd—a oleua i ti yn angau, pan fyddo
“pob goleuni arall yn pallu ac yn diffodd,
“ac a’th arwain i’r goleuni tragwyddol yn
“y wlad na fachluda ei haul, ac nad ä
“un cwmwl tros ei wyneb yn oes oesoedd,
“ac Efe ei hun yw yr haul hwnw. Cofiwch
“mai yn nydd gras, dydd bywyd, y mae
“dyfod i’r goleuni i gychwyn, ‘tra fyddo
“‘genych y goleuni, credwch yn y goleuni
“‘fel y byddoch blant y goleuni, ac na
“ddalio y tywyllwch chwi.’ ‘Hon yw y
“‘ddamnedigaeth, ddyfod goleuni i’r byd,
“a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy
“‘na’r goleuni.’ ‘Y mae’r nos yn dyfod.’
“Unwaith y dalio y tywyllwch chwi, yn
“cysgu ac yn gorwedd gyda’r meirw, hi
“ä’n dywyllwch eithaf arnoch, na chyfyd
“goleuni byth i roi terfyn arno. Ni
“swnia hyfrydlais y testyn yn oes oesoedd
“uwch ben y trueiniaid yn y tywyllwch
“hwnw.”

Dyna ryw ddrychiolaeth, annelwig iawn o angenrheidrwydd, fel adgofion bachgenyn wyth mlwydd oed, o'r bregeth hono tua deuddeng mlynedd a thrigain yn ol. Bu llawer o son am y bregeth yn yr ardal, a mawr oedd awydd y bobl am glywed y pregethwr drachefn, ond hyny ni chawsant yn Llansannan. Gwr lled gartrefol oedd efe mewn cymhariaeth â llawer o'i frodyr yn y dyddiau hyny. Yr oedd ei fynych wendid yn herwydd ei afiechyd poenus, yr *asthma*, i fesur helaeth yn peri hyny; a pheth arall, yr oedd gofalon y bywyd hwn, gyda theulu cynhyddol, yn ei gadwyno gyda galwedigaeth siop fechan a gadwai, yr hon oedd prif ffon bara y teulu. Ffon gorsen ysig a gwan iawn oedd y weinidogaeth i bwysu arni am gynhaliaeth teulu yr amser hwnw. Y tro olaf y bu yr ysgrifenydd yn Ll—n—ch—n, dangosai un o flaenoriaid yr eglwys Fethodistaidd yno hen lyfr cofnodion eglwysig yr oedd efe newydd ei gael yn mysg pentwr o hen bapurau, yn cynwys, yn mhlith pethau eraill,

gofnodion am gyfarfod mawr a gynhelid yno tua haner can mlynedd yn ol, ac enwau y gweinidogion oedd yn gweinyddu ynddo, a'r swm a delid yn gydnabyddiaeth i bob un am ei lafur, i un chwecheiniog, i arall swllt, i arall ddeunaw, i Michael Roberts haner coron! Felly costiodd y cyfarfod hwnw y swm anferth o bum swllt a chwecheiniog i'r gynulleidfa! Pe buasai rhyw *un* (fel y darfu i lawer un fe ddichon) anfon am feddyg o'r dref gyfagos i ymweled âg ef, neu âg un o'i deulu, buasai raid iddo ddwyn ei gini allan i dalu iddo, ac ni chlywsid ef yn cwyno oblegyd hyny; ond dyna gynulleidfa o rai canoedd o ddynion wedi gwahodd pedwar o weinidogion yr Efengyl atynt, a rhai o bell ffordd, megys Michael Roberts o Bwllheli, i'w gwasanaethu yn eu pethau ysbrydol, ac yn rhanu pum swllt a chwecheiniog cydrhyngddynt yn dâl am eu hamser a'u llafur! Wel, yn hyn o beth, bid a fyno, y mae y dyddiau hyn yn well na'r dyddiau o'r blaen.

PENNOD II.

Adgofion y Llanc.

YN yr erthygl hono yn yr *Amserau* y cyfeiriwyd ati, dywedir:—“Fel yr
“addfedai ein meddwl a’n dealltwriaeth i
“raddau, mwyaf oll yr hoffem ac y mawr-
“ygem Michael Roberts. Y mae ambell
“bregethwr a enilla serch ac edmygedd y
“bachgen yn rhyfedd, ond a gyll ei ddy-
“lanwad arno pan ddelo y bachgen yn
“ddyn. Y mae y pregethwr yn fawr tra
“byddo y dyn yn fychan, ond fel y cyn-
“hyddo y gwrandawr, lleihâ y pregethwr
“yn ei olwg. Nid felly yr oedd efe: tra
“yr oedd ei lais toddedig, ei arddull, a’i
“agwedd gweddeiddlwys yn swyno y glust
“a’r llygad fel o’r blaen, yr oedd sylwedd-
“olrwydd, nerth, ac eglurder ei sylwadau
“hefyd yn deffro meddwl ac ystyriaeth, yn
“eu ‘porthi â gwybodaeth ac â deall,’

“megys y dywedir am Pedr yn Jerusalem
“gynt, ‘yn egluro ac yn gosod y peth
“‘mewn trefn’ o flaen y bobl, felly yntau.
“Yr oedd ei iaith a’i arddull yn goeth,
“yn syml a detholedig iawn, heb ddim o
“naws wyntog a chwyddog; ei frawddegau
“yn lluniaidd a chryno, a’r traddodiad yn
“bobjeth a ellid ei ddymuno; a chymeryd
“y pethau hyn oll yn nghyd, ni phetruswn
“ddweyd ei fod y blaenaf a’r penaf o’i holl
“frodyr.”

Yr adgof nesaf sydd genym am dano pan yn llencyn un ar bymtheg oed, mewn Cymdeithasfa flynyddol yn Llanrwst, dydd Calan 1818. Yr oedd yn dywydd oer, rhewog, a chaenen dew o eira ar y ddaear, a thyrfafawr o bobl yn sefyll allan ar gwrt y capel, a llawer yn ysgrythu gan ryndod, tra yr oedd y cyntaf am ddeg y boreu yn pregethu ar y ffenestr er mwyn y dorf oedd allan. Pan ddibenodd hwnw, aeth Michael Roberts i fyny, yn gwisgo cap melfed du am ei ben. Rhoddodd benill o Salm allan i’w ganu nad

oeddwn i yn cofio ei weled na'i glywed erioed o'r blaen, ac ni ddygwyddodd i mi glywed ei ganu mewn cynulleidfa byth wedi hyny. Hwn ydoedd:—

Fy unig Dduw ydyw fy mhlaid,
Mae f'enaid yn ei ddysgwyl;
Ohono Ef, a thrwy Ei rym,
Daw iechyd im' o'm hanhwyl.

Aeth megys awel dyner dros y dyrfa i mewn ac allan gyda'r penill ac wrth ei ganu. Atelid ef am fer enyd i roddi allan ei destyn gan beswch a gyffroid gan yr awel oer, rewog yn y ffenestr, ac ofnid nad allasai wneud dim ohoni yn y fath le anfanteisiol a pheryglus i sefyll a llefaru. Yr oedd miwsig yn ei wddfgarthiad a'i besychiad ef. Wedi i dòn y peswch fyned drosodd, darllenodd ei destyn, *Esaiah ix. 5:* “*Canys pob cad y rhyfelwr sydd mewn trwst, a dillad wedi eu trybaeddu mewn gwaed; ond bydd hwn trwy losgiad a chynud tân.*” Yr oedd yr holl dyrfa megys yn ei feddiant ac yn ngrhòg wrth ei wefusau yn y fan. Yr oedd dyeithrwch y testyn, a dull a thôn


y darlleniad hefyd, yn codi dysgwyliadau y bobl am rywbeth. Anghofiodd pawb oedd allan ar y cwrt y rhew, a'r eira, a'r oerni, a'r anwyd ar unwaith; yr oedd pob un wedi ei gynhesu o'i ben i'w draed yn ngwres y tân oedd yn y testyn a ddarllenasid. Ni ddisgynodd fy llygad byth ar y geiriau hyny na saethai fy meddwl i Lanrwst, i'r oedfa hono, a byddaf megys yn ei weled ef fel yn fyw o'm blaen, ac yn clywed ei lais peroriaethus yn fy nghlust.

Nid oes genyf ond ychydig adgofion o'r bregeth yn aros. Rhoddodd ddesgrifiadau effeithiol iawn o ddychrynfeydd rhyfel, yr wyf yn cofio hyny. Nid oedd ond rhyw dair blynedd wedi myned heibio er pan wnaethid i ryfeloedd beidio yn Ewrop yn nghwmp Napoleon yn Waterlô. "Ie," meddai, "mewn trwst; dyna oedd y trwst oedd yn llenwi awyr Ewrop a'r byd er's blynyddau lawer hyd yn ddiweddar iawn; trwst "rhyfel, a thrybaeddu dillad mewn gwaed" —y trwst mwyaf ofnadwy o bob trwst yn

“y byd trystiog hwn; trwst magnelau yn
“dryllio dynion, y cleddyf yn bwyta cig ac
“yn meddwi ar waed dynol; trwst dinasoedd
“ar dân; swm griddfanau clwyfedigion, a
“dolefau alaethus gweddwon a phlant am-
“ddifaid. Dyna fel y maent hwy, y
“brenhinoedd a'r cadryfelwyr, yn cario eu
“hachosion a'u hamcanion yn mlaen. Nid
“felly y mae Hwn yn dwyn achos Ei
“deyrnas Ef yn mlaen ar y ddaear.
“Ysbrydol, nid cnawdol, yw arfau milwr-
“iaeth Ei deyrnas Ef. Nid y cleddyf dur,
“ond 'cleddyf yr Ysbryd, yr hwn yw gair
“'Duw,' ydyw Ei gleddyf. Y mae ganddo
“yntau dân hefyd,—nid y tân elfenol a
“daearol, ond y tân ysbrydol a nefol, nid
“i losgi dynion, ond i doddi eu calonau i
“edifeirwch a chariad. Elias a dynodd y
“gawod olaf o'r tân cyntaf hwnw o'r
“nefoedd. Pan ddaeth *Hwn* yma, ac y
“deisyfodd meibion y daran genad ganddo
“i alw am dân o'r nef i losgi y Samariaid
“hyny, fel y gwnaethai Elias, 'Na fynaf,'
“oedd Ei ateb; 'ni ddaethum i ddystrywio

“‘eneidiau dynion, ond i’w cadw,’ a dyma
 “gau dorau y tân hwnw i fyny ‘hyd farn
 “‘y dydd mawr.’ Wedi iddo agor y nef
 “ar Ei esgyniad oddiar fynydd yr Olewydd,
 “Efe a dywalltodd y gawod fawr, ‘yn
 “‘dafodau gwahanedig megys o dân,’ ar
 “yr apostolion ar ddydd y Pentecost,—y
 “tân sanctaidd, tân yr Ysbryd, tân i losgi
 “llygredigaethau a drygau y byd, tân a
 “doddodd dair mil o galonau caletach na’r
 “creigiau ar unwaith, a’r tân a dry holl
 “arfau a pheirianau rhyfel y byd o’r diwedd
 “i’r tân y ganwyd hwynt ohono ar y dechreu,
 “i’w toddi a’u hail eni yn sychau a phlad-
 “uriau ac offerynau defnyddiol eraill i drin
 “y ddaear. Hwn yn y testyn ydyw yr un
 “y dywedir yn y chweched adnod am dano,
 “‘Canys bachgen a aned i ni, mab a roddwyd
 “‘i ni, a bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd
 “‘ef, a gelwir ei enw ef Rhyfeddol,
 “‘Cynghorwr, y Duw cadarn, Tad tra-
 “‘gwyddoldeb, Tywysog tangnefedd. Ar
 “‘helaethrwydd ei lywodraeth a’i dangnefedd
 “‘ni bydd diwedd, ar orseddfa Dafydd, ac ar

“‘ei frenhiniaeth ef, i’w threfnu hi, ac i’w
“‘chadarnhau â barn ac â chyfiawnder o’r
“‘pryd hwn a hyd byth. Zêl Arglwydd
“‘y lluoedd a wna hyn.’ Y mae y gwaith
“mawr yn llaw y Bachgen—y Mab—y
“Rhyfeddol—y Cynghorwr—y Duw cadarn
“hwn, ac ni rydd mohono o’i law nes iddo
“ei orphen mewn cyfiawnder. I, guro i
“fyny am filwyr i fyddin y ‘Tywysog
“‘tangnefedd’ hwn y daethom ni yma
“heddyw. Pwy a ymrŷdd yn ewyllysgar
“iddo yn awr? Pa nifer ohonoch sydd
“yn teimlo yn barod i dderbyn y *bounty*
“o’i law Ef, ac i wisgo ei arfau Ef?
“Chwychwi sydd wedi ymrestru yn myddin
“y Tywysog hwn, ymgryfhewch, nac ofnwch;
“y mae y fuddugoliaeth yn sicr er bod y
“gelynyon yn aml ac yn gedyrn. Edrych-
“wch ar i chwi enill y cymeriad o fod yn
“filwyr da iddo Ef. ‘Y rhai oll sydd
“‘gydag ef ydynt alwedig, etholedig, a
“‘ffyddlon.’”



PENNOD III.

Yn y Gymdeithasfa.

YR adgof nesaf sydd genyf am dano oedd mewn Cymdeithasfa yn Ninbych yn y fl. 1823. Cynhelid yr oedfa y boreu ar yr heol o flaen llysy y farchnad. Pregethai ef yr adeg hono ar ol yr hybarch J. Parry o Gaerlleon. Ei destyn oedd Luc xxi. 36: "*Gwylwch bob amser a gweddiwch ar gael eich cyfrif yn deilwng i ddianc rhag y pethau hyn oll sydd ar ddyfod, ac i sefyll gerbron Mab y dyn.*" Pan oedd ar ganol egluro geiriau ei destyn yn eu perthynas neillduol â gwrandawyr yr Athraw Mawr wrth y rhai y lleferid hwynt, gyda golwg ar Ei ddyfodiad, yn ngoruchwyliaeth Ei raglun-iaeth, i ddinystrio Jerusalem, a goruchwyl-iaeth yr hen gyfamod, a gwasgar gweddillion y cleddyf, y newyn a'r haint o'r genedl yn

mysg yr holl genhedloedd, tarawyd y dyrfa â braw disymwth gan swn carnau march yn carlamu tuagati ar yr heol, encyd oddiwrthi, cyn iddo eto ddyfod i'r golwg. Aethai nifer o hogiau direidus y dref i gae gerllaw, lle yr oedd lluaws o geffylau dyeithriaid o'r wlad, a ddaethent i'r Gymanfa, yn pori. Daliodd un o'r bechgyn un ohonynt, ac aeth ar ei gefn; dododd y lleill dusw o ddanadl poethion o dan ei gynffon, a dechreuodd yntau ymwylltio a rhedeg, a'r bechgyn yn gwaeddi ac yn ysgrechian ar ei ol, gan ei gyffroi a'i wylltio yn fwy. Torodd allan o'r cae, ac i ben yr heol gyferbyn â'r castell, a chymerodd ei gyfeiriad tua'r dref, a chyn gynted ag y daeth i olwg y dyrfa, dyna lle yr oedd dolefain a rhedeg a rhuthro y naill ar draws y llall—y merched yn llesmeirio, a'r dynion heb fod nemawr yn well na hwythau. Yr oedd hen dorwr ceffylau yn dygwydd bod yn y dyrfa, yr hwn a safai yn berffaith hunanfeddianol i ddysgwyl ei adeg, a phan ddaeth y march gwyllt

gyferbyn âg ef neidiodd ato mor chwimwth a'r teigr, taflodd un fraich am ei wddf, cydiodd yn ei ffroen â'r llaw arall, pwysodd ei ben ef tua'r llawr, llonyddodd a dofodd ef yn fuan. Safai y pregethwr fel delw fud yn ddigyffro am tua deg neu ddeuddeng munyd. Cododd Mr. Elias ar y llwyfan i geisio llonyddu y dyrfa, ond nid oedd dim perswadio yn tycio am enyd o amser. Ond aeth y dychryn a'r terfysg heibio yn y man, ac ail-ymaflodd y pregethwr yn ei waith, ac aeth yn mlaen fel pe na ddygwyddasai dim annymunol. "Y pethau hyn "oll sydd ar ddyfod," meddai. "Nodir "y pethau hyn yn yr adnodau blaenorol i'r "testyn, a phethau ofnadwy ydynt, rhyfedd- "odau yn y nefoedd ac ar y ddaear, ing "cenhedloedd gan gyfyng-gyngor, a'r môr "a'i dônau yn rhuo, dynion yn llewygu gan "ofn, Jerusalem a'i theml yn cael eu di- "nystrio, fel na adewid ynddynt faen ar "faen a'r nas datodid, a chwalu gweddillion "y genedl gyda phedwar gwynt y nefoedd. "Fe ddaeth y pethau hyn oll, i'r llythyren

“ohonynt, ar y genedl a’r oes hono. Gwel-
“odd llawer o’r rhai oedd yn clywed hyn
“â’u clustiau y pethau hyny â’u llygaid.
“Ychydig ohonynt oedd yn credu pan
“oeddynt yn clywed am danynt; ond bu
“raid credu wedi iddynt ddyfod i’r golwg
“yn mhen tua deugain mlynedd wedi hyny.
“Y mae y pethau hyn, a phethau mwy
“ofnadwy na’r pethau hyn, ar ddyfod eto,
“a chawn ninau bob un weled y pethau
“hyny—gweled y nefoedd yna, nid yn unig
“yn cael ei hysgwyd, ond yn ymollwng
“gan losgi, a’r elfenau gan wir wres yn
“toddi, y ddaear a’r gwaith fyddo ynddi ar
“dân, Mab y Dyn yn dyfod ar gymylau
“y nefoedd gyda gallu a gogoniant mawr,
“a rhaid ymddangos ger ei fron Ef. Beth
“a wnewch chwi yn y dydd hwnw, wran-
“dawyr, pan ddelo y pethau hyn oll i’r
“golwg? Yr oedd llawer ohonoch yn
“gwaeddi, a rhai yn llewygu gan ofn,
“ychydig funydau yn ol, yn swm carnau
“un o’i feirch bychain Ef ar y palmant
“yna, yn methu sefyll o flaen y creadur

“ eiddil hwnw, pan oedd yn neshau atoch.
 “ Pa fodd y sefwch gerbron y Gwr ei hun
 “ y dydd hwnw? Fe ffy y nefoedd o flaen
 “ gogoniant ei fawredd Ef, a lle ni cheir
 “ iddynt; ond beth a wnewch chwi yn nydd
 “ yr ymweliad? ‘Dianc rhag y pethau
 “ ‘hyn oll.’ Fe ddiangodd dysgyblion y
 “ Gwardwr bob un rhag y pethau hyny
 “ yn Jerusalem drwy wrando a chredu ei
 “ eiriau Ef, a dilyn ei gyfarwyddiadau Ef;
 “ diangasant oll o Jerusalem i ddinas fechan
 “ oedd gerllaw, a llechasant yno, fel Lot
 “ yn Zoar, hyd onid aeth yr aflwydd heibio.
 “ Ac y mae modd dianc rhag y pethau hyn
 “ oll i ninau eto drwy wrando a chredu
 “ a ffoi mewn pryd. Oes, y mae yma lawer
 “ yn y dyrfa hon wedi dianc, a ffoi, a
 “ chymeryd gafael yn y gobaith a osodwyd
 “ o’n blaen yn yr Efengyl—safant hwy yn
 “ ddigryn gerbron Mab y Dyn yn y dydd
 “ hwnw. Ac y mae yma eraill, a safant
 “ yn hollol ddifraw yma heddyw, yn swm
 “ y cyhoeddi a’r rhybuddio am y pethau
 “ hyn. Chwi a ellwch sefyll yn ddigon

“didaro ger ein bron ni: peth arall fydd
“sefyll ger ei fron Ef ei hun. Pan ddelo
“dydd mawr ei ddigter Ef, pwy a ddichon
“sefyll? Bydd brenhinoedd a phencapten-
“iaid a gwyr mawr, y rhai a safasant yn
“ddiofn yn nydd yr ymladd a’r rhyfel lawer
“gwaith, yn methu sefyll y dydd hwnw,
“ond yn gweddio ar y creigiau a’r myn-
“yddoedd am iddynt syrthio arnynt a’u
“cuddio rhag llid yr Oen, a’r creigiau a’r
“mynyddoedd hyny eu hunain yn ffoi. Na,
“na, ni bydd lle na modd i ddianc wedi
“i’r pethau hyn ddyfod, ond y mae lle a
“modd i ddianc heddyw—dianc ato Ef ei
“hun, i gysgod y Gwr sydd yn lloches
“rhag y gwynt, yn noddfa ac yn ddiddos
“rhag tymestl a rhag gwlaw. Brysia a
“dianc yno, enaid, fel y byddo genyt hyder
“ddydd y farn, ac na byddo i ti gywil-
“yddio ger ei fron Ef yn ei ddyfodiad.”

Wel, os oedd yno lawer ar ddechreu y
bregeth yn crynu mewn dychryn yn swm
carnau y march ar yr heol, yr oedd yno

lawer hefyd yn crynu ar ei diwedd yn swm
 “y pethau hyn sydd ar ddyfod” oedd i’w
 glywed mor nerthol ynndi, ac yn eu mysg
 yr oedd Caledfryn yn un, yn wr ieuanc
 un neu ddwy ar hugain oed. Y bregeth
 hono fu yn offerynol i dueddu ei feddwl
 at grefydd a phenderfynu gwneud proffes
 ohoni.

Cymerwn ein rhyddid yn awr i dori tros
 glawdd yr adgofion personol i godi lloffyn
 neu ddau oddiar feusydd adgofion eraill am
 dano, megys y traddodasant hwy i ni.

Sonid llawer am bregeth effeithiol iawn
 a draddodwyd ganddo mewn Cymdeithasfa
 a gynhelid ar y Green yn Beaumaris—nid
 wyf yn cofio pa flwyddyn. Ei destyn oedd
 Salm lxxviii. 32: “*Er hyn oll, pechasant*
eto,” &c. Aeth dros hanes y genedl yn yr
 anialwch fel yr adroddir ef yn y Salm hono,
 gan sylwi: “Er yr hyn oll a wnaethai Duw
 “iddi er ei hatal i bechu, ‘pechu eto’
 “fynnai hi. Rhoddi ei gyfraith danllyd o’i
 “ddeheulaw iddi, ‘pechu eto’! Ei dar-

“ostwng i gyfyngder a drygfyd a chyni,
“yn gerydd am ei phechodau, a'i gwaredu
“drachefn o'r cyfyngder hwnw pan lefai
“arno,—er hyn oll, 'pechu eto' ar ol pob
“trallod a phob gwaredigaeth. Cau ei
“ffordd â drain, a murio muriau i'w chadw
“a'i hatal oddiwrth ei phechodau,—er hyn
“oll, ychwanegasant eto bechu; ymwthient
“trwy y drain a dringent tros y muriau
“i fyned ar ol eu heilunod. 'Pechu eto'
“ydyw y byrdwn o hyd. Y mae y bobl
“hyny yn enwog byth fel pechaduriaid
“dihafarch; ond y mae cystal pechadur-
“iaid ag oeddynt hwythau i'w cael yn Môn
“y dydd heddyw. Y mae rhai—oes, lawer
“yn y dyrfa hon ar y Green yma yn awr
“—yr un fath a hwy yn union. 'Pechu eto'
“ydyw swm a sylwedd hanes eu bywyd.
“Magwyd rhai ohonoch dan addysg gre-
“fyddol yn blant ar yr aelwyd gartref;
“cawsoch fanteision addysg yr Ysgol Sab-
“bothol drachefn; ond er yr holl fanteision
“hyny, cashau addysg, a thafu ei gwersi
“o'ch ol, a wnaethoch chwi, a dechreu

“gyrfa bywyd ar ffordd pechaduriaid. Bu
 “y gair yn ymryson â'ch cydwybodau lawer
 “tro, nes peri i chwi addunedu ar yr adegau
 “hyny i adael a dychwelyd oddiwrth eich
 “ffyrdd pechadurus, ond ati i *bechu eto* yr
 “aethoch. Y mae rhai ohonoch yn add-
 “unedu felly ar y Green yma heddyw, ac
 “a ewch adref heno, ac i'r farchnad neu
 “i'r ffair yn Llangefni neu rywle arall yfory,
 “ac ati i *bechu eto* yno. Gwasgwyd rhai
 “ohonoch droion gan glefyd trwm, a'ch
 “dygodd i borth angau, ac a'ch ysgydwodd
 “uwchben uffern; ac O! fel yr oeddych
 “yn addunedu, os caech godi o'r cystudd,
 “na welid byth mohonoch yn dilyn yr hen
 “arferion pechadurus mwy; a chwi gawsoch
 “godi, a chyn gynted ag y cawsoch eich
 “traed tanoch, ati i *bechu eto* yr aethoch
 “yn fwy ymroddgar nag o'r blaen. Beth
 “a wneir o'r *pechu eto* yma? A oes dim
 “diwedd i fod arno? Oes, y mae; ni all
 “y Nefoedd oddef iddi fyned yn mlaen fel
 “hyn o hyd. A gaiff dim lwyddo i roi
 “atalfa arno cyn i angau roddi terfyn arno?

“‘Gadawed y drygionus ei ffordd,’ a dy-
 “chweled at yr Hwn y pechodd felly i’w
 “erbyn, ‘ac efe a gymer drugaredd arno,’
 “ac ‘a arbed yn helaeth,’ canys y mae Efe
 “yn Dduw parod i faddeu,—mor barod i
 “faddeu eto ag a fuost ti erioed i *bechu*
 “*eto*; ‘am fod yn hoff ganddo drugaredd’
 “—mor hoff, ie yn fwy hoff o drugarhau
 “a maddeu i’r edifeiriol nag a fu y pech-
 “adur o bechod a phechu erioed. Ond
 “gwylia di ryfygu i *bechu eto*, gan wen-
 “hieithio i ti dy hun, a dywedyd, ‘Heddwch
 “fydd i mi er i mi rodio yn nghyndyn-
 “rwydd fy nghalon i ychwanegu meddwdod
 “at syched; heddwch fydd i mi wedi’r
 “cwbl, canys y mae Duw yn drugarog, ac
 “yn barod i faddeu.’ Ydyw, ond gwrando:
 “‘Ni fynn yr Arglwydd faddeu i’r gwr hwnw,’
 “canys yna y myga digofaint yr Arglwydd
 “yn erbyn y gwr hwnw.’ ‘Troi gras ein
 “Duw ni i drythyllwch’ ydyw peth fel yna,
 “ac felly ychwanegu ysgelerder at bechod.
 “Maddeuant fel y’i hofner ydyw ei fadd-
 “euant Ef.”

Er mor dyllog ac anmherffaith y rhaid fod y cofnodion blaenorol, fe wêl pob darllenydd sydd yn cofio yr hen bregethwr dihafal ei ddelw ef yn llewyrchu ynddynt, ac fe deimla fod ei allu gafaelgar a'i ddawn trydanol yn cerdded trwyddynt.

Unwaith eto, a'r waith hon yn unig yn y ffordd hon. Coffheir am dro arall—a'r tro hynotaf iddo yn ei fywyd, dybygid, oedd y tro hwnw—mewn Cymdeithasfa yn Llanidloes, yn y flwyddyn 1819. Prydnawn dydd cyntaf y Gymanfa gofidiwyd ei feddwl wrth weled lluwaws o feibion a merched ieuainc, a ddaethent i'r dref i'r cyfarfod, yn wamal a gwyllt yr olwg arnynt ar hyd yr heolydd, yn neillduol ar ol oedfa yr hwyr hwnw. Wedi myned i'w letty, ymneillduodd i'w ystafell wely, ac ni welwyd ef hyd boreu dranoeth. Yr oedd i bregethu am ddeg y boreu hwnw. Ei destyn oedd Salm i. 5: "*Am hyny yr annuwiolion ni safant yn y farn.*" Gyda ei fod yn dechreu llefaru, teimlid fod nerthoedd y farn a'r byd a ddaw

yn ysgwyd ac yn gwasgu y gynulleidfa yn ofnadwy, a chynhyddu fwy-fwy yr oedd y nerth a'r dylanwad hyd y diwedd. Dywedai yr hynafgwr hybarch Mr. Cleaton, wrth adrodd yr hanes i mi, mai hono oedd yr oedfa fwyaf nerthol yr oedd yn cofio iddo fod ynddi erioed yn ei fywyd: yr oedd yr holl dyrfa megys wedi ei gwasgu fel na allai na symud na llefain, na braidd anadlu, meddai. Yr oedd Ebenezer Morris i bregethu ar ei ol, ond ni fynnai hyd yn nod y cawr-bregethwr hwnw ei hun gynyg arni. Gwnaeth ychydig gymhwysiadau mewn byr eiriau a therfynodd drwy weddi. Cerddodd dylanwad y bregeth hono drwy y wlad o amgylch. Dywedai Mr. Cleaton ddarfod cael allan wedi hyny fod o leiaf bymtheg cant o eneidiau wedi eu hychwanegu at yr eglwysi yn y parthau hyny, y rhai oll a briodolent eu dychweliad i'r hyn a brofasent dan y bregeth hono. Yr oedd pregeth Michael Roberts yn Llanidloes yn un o'r fath debycaf i bregeth Simon Pedr yn Jerusalem ar ddydd y Pentecost y mae

genym hanes am dani. Yr oedd nifer y dychweledigion trwyddi, hyd y gellir barnu, yn llawn cymaint a haner y nifer a ddychwelwyd drwy bregeth Pedr. Effaith yr ymneillduaeth i'r mynydd y nos o'r blaen, gallwn feddwl, oedd y dysgleirdeb tanllyd a dywynai ar wedd wyneb ei weinidogaeth ef y boreu hwnw.

Yr oedd efe, yn gystal ag yn bregethwr ac "areithiwr hyawdl," yn frawdwr a chynghorwr doeth. Yn y Gymdeithasfa a gynhelid yn Llangeitho yn y fl. 1825, pan oedd mater pwysig y Gyffes Ffydd i ddyfod dan ymdriniaeth, efe oedd y cynrychiolwr etholedig dros sir Gaernarfon yno. Cynhelid amryw gynhadleddau yn ystod dyddiau y Gymdeithasfa hono mewn cydymgyngoriad difrifol uwchben y mater, a daethpwyd yn y diwedd i gytundeb unfrydol arno. Wedi i'r cyfarfod olaf ddibenu, dywedodd yr hybarch D. Charles (yr hynaf) o Gaerfyrddin wrth H. Gwalchmai, sir Drefaldwyn, "Wel, ni wn i ddim beth a wnaethem ohoni

yma heddyw onibai dyn bach Pwllheli yna: yr oedd ef cystal a haner dwsin ohonom." Yr oedd y fath dystiolaeth, oddiwrth y fath dywysog o dduwinydd a meddyliwr, yn dweyd llawer iawn. Nid oes yn aros hyd yr awr hon yr un o'r gwyr anrhydeddus hyny a eisteddent yn y cyngor hwnw.

Wedi dygwydd ohonof ddyfod ar draws mater y Gyffes Ffydd yma, y mae yn brofedigaeth i mi aros gydag ef am ychydig eto. Credaf fod llawer iawn mwy nag a fuasai yn dda ac yn ddoeth o siarad, ysgrifenu, a dadleu wedi bod yn ei gylch yn y blynyddau a aethant heibio,—yn Nghymru, ac yn Lloegr hefyd. Mynnai llawer eu condemnio fel esgymunbethau yn tra-awdurdodi ar gydwybodau, ac fel achlysuron dadleuon, ymbleidiau, a rhwygiadau yn yr eglwysi, &c. Y mae yn wir iddynt fod felly,—yn *achlysuron* llawer o ddadleuon ac ymrysonau, ond rhaid i ni gofio a meddwl hefyd, os ydym i gollfarnu a chondemnio pobpeth a fyddo yn dyfod yn

achlysur dadleuon ac ymrysonau, y rhaid i ni ymwrthod â'r Beibl, Cristionogaeth, a'r Efengyl yn anad dim, canys beth erioed a fu yn y byd a achlysuodd fwy, ie gymaint, o ddadleuon ac ymrysonau a hwy? Y mae gan unrhyw ddyn, os mynn, hawl i ffurfio barn a chredo, a'i gyhoeddi i'r byd os dewisa, heb fod gan neb arall reswm nac achos i feio arno; ac felly pob cynulleidfa neu eglwys a gytuno i wneud hynny, a chyfundeb o eglwysi yr un modd; ac y mae yn rhesymol a theg i bawb o'r tuallan i gylch y cyfundeb gael mantais i wybod, os ewyllsiant, beth y mae y cyfryw gyfundeb yn ei gredu, fel y gallont farnu trostynt eu hunain, pa un a allent hwy ei gymeradwyo neu beidio. Mewn rhwymo y credo wrth y llywodraeth wladol, fel y gwna eglwysi sefydledig, a galw arni hi i osod sêl ei hawdurdod wrth y credo, a'i waddoli o bwrs ei threthoedd, ac felly gorfodi dysgyblion pob credo gwahanol, a'r rhai na feddnt gredu o fath yn y byd, i dalu at draul cynhaliaeth ei chredo mabwysiedig hi, y

llywodraeth, ydyw y drwg a'r camwri, a thrwy atal y cyfryw i fwynhau ac arfer eu hiawnderau gwladol fel deiliaid, fel y gwnai hen *Act* yr Unffurfiaeth, o warthus goffadwriaeth, am hir dymor yn y wlad hon. Eto credwn na ddylid gosod yr un gyffes na chredo a gyfansoddwyd erioed, o ddyddiau yr Apostolion hyd yma, yn amod derbyniad i gymundeb eglwys Crist, ond mai cyfraith Crist ei hun, fel y mae yn ddatguddiedig yn y Testament Newydd, mai at y "gyfraith a'r dystiolaeth" hono yn unig y mae i'r eglwys apelio er penderfynu pob achos perthynol iddi fel eglwys i Grist, yn ei hathrawiaeth a'i llywodraeth. Ond am i eglwys, neu gyfundeb o eglwysi, drwy eu cynrychiolwyr etholedig, gyhoeddi ffurf o athrawiaeth y cytunont arni fel yn cynwys eu syniadau hwy ar wirioneddau yr Efengyl, ac yn cyhoeddi y gyffes hono i'r byd, credwn fod y cyfryw gyfundeb yn gwneud cyfiawnder âg ef ei hun ac â'r byd drwy hyny.

Y mae un dygwyddiad yn hanes yr Annybynwyr yn Lloegr yn nglyn â'r mater hwn

o gryn ddyddordeb ac yn deilwng ei goffhau, a gymerodd le ychydig cyn marwolaeth Oliver Cromwell. Danodai y Presbyteriaid a'r Esgobyddion iddynt hwy, yr Annibynwyr, nad oedd ganddynt ddim i ddangos i'r byd beth oeddynt yn gredu fel athrawiaeth. Gwasgai yr aelodau Presbyteraidd o Gymanfa Westminster yn daer ac yn fynych ar yr Annibynwyr a fuasent yn aelodau o'r Gymanfa hono, y pwys fod iddynt roddi hysbysiad cyhoeddus o'u golygiadau athrawiaethol,—ddarfod i'r brodyr yn Lloegr Newydd (America) wneuthur hyny ddeng mlynedd yn flaenorol, &c.

Cymerodd blaenoriaid yr enwad yn Llundain y mater dan eu hystyriaeth, a chytunasant fod y galwadau uchel a pharhaus oedd arnynt yn eu gosod dan rwymau i amlygu yn ffurfiol i'r byd beth oedd eu syniadau a'u crêd ar athrawiaethau duwinyddol ac ymarferol crefydd.

Yr oedd Cromwell ar y cyntaf yn bur anmharod i gydsynio â'r cais i alw cyn-

hadledd i ymgymeryd â'r mater hwn. Ofnai y buasai yn peri achlysur i ddadleuon a chynhenau, yn ychwanegol at y dadleuon blinion oedd eisoes yn bod rhwng gwahanol bleidiau crefyddol â'u gilydd, y rhai a flinent ei ysbryd ef yn fwy nag y poenent un dyn arall, oherwydd y sefyllfa yr oedd ynddi fel penawg y wladwriaeth. O'r diwedd, fodd bynag, efe a gydsyniodd, ac anfonwyd cylchlythyr at y gweinidogion a'r eglwysi trwy Loegr i wahodd y gweinidogion, a chenhadon dewisedig gan yr eglwysi, i ymgyswrtu yn Llundain ar amser penoddedig i gydymgyngori ar yr achos, ac erbyn y dydd nodedig yr oedd dros ddau cant o frodyr o wahanol Barthau y wlad wedi dyfod yn nghyd. Cynhelid y Gynhadledd yn llys Savoy, yn y Strand—hen balas i un o dduciaid Savoy, gynt, ond a droisid yn fynachdy, ac wedi hyny yn ysbytty cleifion, ond oedd y pryd hwnw wedi ei roddi at wasanaeth swyddogion llys Cromwell. Ysgrifenyddion y Gynhadledd oeddynt y Doctoriaid Owen a Goodwin, y

rhai a drefnent waith pob dydd i'w osod gerbron y Gynhadledd bob boreu. Yr oedd John Howe yn bresenol mewn amryw o'r cyfarfodydd. Parhaodd y Gynhadledd dros amryw ddyddiau. Ystyriwyd pob erthygl gyda'r pwyll a'r gofal mwyaf, ac yn y diwedd daethpwyd i gytundeb, "heb neb yn tynu'n groes," ar bob mater. Yn y rhagymadrodd i'r gyffes y cytunasant arni, yr hwn a ysgrifenasid dros y Gynhadledd gan Dr. Owen, dywedir:—"Yr ydym yn "cydnabod ddarfod i'n heglwysi oll, o leiaf "y rhan fwyaf o lawer ohonynt, o'r de- "chreuad hyd yma, yn gyffelyb i gynifer "o longau, er yn dal allan yr unrhyw fath "ar fanerau, droi allan i'w mordaith bob "un wrthi ei hun, a hwylio wrthi ei hun "ar eigion tonawg yr amseroedd enbyd hyn, "ac yn agored i ruthrau croeswyntoedd "athrawiaethau dyeithr, heb un arweinydd "ond Gair ac Ysbryd Duw, a'u henuriaid "a'u swyddogion eu hunain, ac heb erioed "gydymgyfarfod â'u gilydd o'r blaen ar y "pwrpas arbenig hwn o drefnu cyffes neu

“fynegiad cyhoeddus o’n golygiadau ar “athrawiaethau ein crefydd.” Wedi myned trwy y gwaith, medd yr hanes, canfuent, er eu llawenydd, er eu bod wedi troi allan i’r fordaith, bob eglwys yn annibynol wrthi ei hun megys, eu bod oll yn hwylio wrth yr un siart, tua’r un porthladd, a’u bod wedi cael llawn foddlonrwydd, drwy yr ymchwiliad manwl a wnaethent, eu bod yn cytuno yn galonog iawn yn eu golygiadau ar y gwirioneddau sanctaidd hyn, a gredid ac a gyffesid gan yr eglwysi efengylaidd drwy y byd. Y mae yn ffaith ddyddorol, medd yr hanesydd Neal, gyda’r unig eithriad o’u datganiad ar drefn eglwys, fod erthyglau Cyffes Savoy yn dwyn tebygrwydd mawr i erthyglau cyffes hynod y duwinyddion yn Nghynhadledd Westminster, a’u bod wedi mabwysiadu amryw o erthyglau y gyffes hono, heb newid dim arnynt. Y Parch. J. Forbes o Gloucester, gweinidog Presbyteriaidd a aethai i’r Gynhadledd yn Savoy fel gwrandawr, mewn llythyr at gyfaill, a ddywedai:—“Yr oedd presenoldeb yr Ar-

glwydd gyda'r rhai oeddynt ar y pryd wedi ymgynull yno yn fwy nodedig na dim y gwyddwn am dano erioed o'r blaen yn fy mywyd."

"Gwyddis yn dda," medd yr hanesydd yn mhellach, "na ddaeth Cyffes Savoy i 'ddefnydd ymarferol cyffredin yn mysg yr "Annibynwyr, ond y mae digon o brofion "fod ei chyhoeddiad wedi dwyn yr effeithiau "goreu, ac yn ol pob tebygolrwydd wedi "bod yn offerynol, i fesur helaeth, i ddwyn "pethau i'r ystad hapus hono, y cyfeiria "Philip Henry ati, oedd i'w gweled yr "amser hwnw yn mysg yr eglwysi o "wahanol enwadau. 'Yr oedd cyfnewidiad "mawr,' medd efe, 'yn ysbrydoedd a "thymherau dynion da drwy y wlad yn "gyffredinol, a thuedd gref at heddwch ac "undeb, fel pe buasant wedi cyd-flino ar "ddadleuon a checraeth.'"

PENNOD IV.

Y Tymor Tywyll.

YN yr erthygl hono yn yr *Amserau*, a ysgrifenyddyd, fel y crybwyllwyd eisoes, dranoeth i'r dydd y derbyniwyd y newydd am ei farwolaeth, dywedir am y tymor tywyll hwn:—"Er hyn oll, yn nghanol "dydd dysglaer ei weinidogaeth, wele "gwmwl tywyll yn ymdaenu trosto, yr hwn "a'i cysgododd am flynyddau. Cododd ei "hen afiechyd blin, yr *asthma*, i fyny i'w "ben, tafodd ei reswm oddiar ei orsedd, "a gwnaeth holl elfenau y dyn anianol a'r "dyn ysbrydol yn gymysgfa o annhrefn, ac "wele yr hen efengylwr fel telyn â'i holl "dannau wedi llacio a dyrysu, ac allan o "gywair. Byddai ar rai prydiau yn gyffelyb "i fynydd tanllyd, ar amser ei gyffroad, yn "bwrw allan fêg a thân, lludw a cheryg, "a hylif llosg-greision, yn gymysg â'u

“gilydd. Weithiau, yn nghanol y dryblith
“arswydus hon, fflachiai gwreichion o’r hen
“athrylith allan yn gawodydd a chyda mwy
“o angerddoldeb nag erioed.”

Cofiwn yn dda, a chofia pawb sydd yn fyw a’r oeddynt yn bresenol, am y tro hwnw yn Nghymdeithasfa y Wyddgrug yn y fl. 1832, os wyf yn cofio yn iawn. Daethai efe yno dan ddylanwad yr anhwylddeb hwnw y gwelid er’s peth amser ei fod yn dyfod arno. Methasai ei deulu a’i gyfeillion yn Mhwillheli ei gadw gartref —i’r Wyddgrug y mynnai efe fyned. Aeth rhai cyfeillion o Bwillheli gydag ef i’w wyllo. Gwaith mawr oedd ei lywodraethu yn y lletty ac yn y cyfarfodydd. Mynnai bregethu yn oedfa y boreu am ddeg, a thyngai y buasai yn rhoddi y dref ar dân os atelid ef. Ceisiai ei frodyr a’i gyfeillion yn mhob modd ei berswadio a’i dawelu, ond i ddim pwrpas. Cytunasant o’r diwedd mai gwell fuasai gadael iddo, ond yr oedd eu calonau yn crynu gan ofn beth fyddai y canlyniadau,

gallem feddwl. Wedi i wasanaeth arweiniol yr oedfa derfynu, aeth i fyny i'r ffenestr, lle y sefid i lefaru, â golwg wyllt arno. Nid oeddwn i yn gwybod y pryd hwnw fod un diffyg neillduol ar ei synwyr, ond meddylw'n fod golwg ryfedd iawn arno. Damweiniol oedd i mi fod yn bresenol yno —yr oeddwn yn dychwelyd i Fostyn o'r Wern y diwrnod hwnw, trwy y Wyddgrug. Wedi myned i'r ffenestr, taflodd ei olwg dros y gynulleidfa i mewn ac allan; yna darllenodd ei destyn, Ioan xii. 27: "*Yr awr hon y cynhyrfwyd fy enaid, a pha beth a ddywedaf? O Dad, gwared fi allan o'r awr hon: eithr oherwydd hyn y daethum i'r awr hon.*" Yn mhen tua deng munyd wedi iddo ddechreu llefaru, yr oedd y gynulleidfa yn dechreu gwingo drwyddi; disgynai ei eiriau fel olew berwedig ar y bobl fel yr elai yn mlaen, a chynhyddai nerth y dylanwad hyd y diwedd. Yn ei lwybr at ei destyn, cyfeiriai at y Groegiaid hyny a ddaethent i'r wyl yn Jerusalem, ac a ddaethent at Phylip, gan ddywedyd wrtho,

“Syr, ni a ewyllysiem weled yr Iesu,” ac apeliai at y dyrfa o’i flaen: “I ba beth y
“daethoch chwi yma i’r wyl hon heddyw?
“Ai i’n gweled ni sydd yn esgyn y naill ar
“ol y llall i’r lle hwn? Pa beth a wnewch
“chwi yn edrych arnom ni? Buasai yn
“well i chwi aros gartref i edrych ar ol
“eich galwedigaethau na cholli diwrnod fel
“hyn i ddyfod yma i edrych arnom ni. Pa
“nifer ohonoch a ddaeth yma i’r wyl hon
“gyda’r dymuniad oedd yn y Groegiaid
“hyny yn myned i’r wyl yn Jerusalem—
“‘gweled yr Iesu’? Cynifer ohonoch a
“ddaethoch felly, chwi a gewch ei weled Ef
“cyn terfyno yr wyl hon, fel y cawsant
“hwy yn yr wyl hono. Fe lawenychodd
“yr Iesu yn yr Ysbryd pan fynegwyd iddo
“fod y Groegiaid yn dymuno ei weled Ef;
“ac y mae Efe yn llawenychu yn yr Ysbryd
“eto pan y mae eneidiau yn ein gwyliau
“ninau yn dyfod i ymofyn am dano, gan
“ddymuno ei weled Ef. Yr oedd y Groeg-
“iaid hyny hwythau yn myned adref o’r
“wyl hono yn llawen iawn wedi cael ei

“weled Ef, ac felly yr ä pob un adref
“oddiyma heno a gaffo olwg arno Ef.”

Yna anerchai y merched a'r gwragedd yn
y dyrfa :—“Beth a'ch cododd chwi oddi-
“cartref heddyw? Treuliodd llawer ohonoch
“fwy o amser o flaen y drych y boreu hwn
“i edrych arnoch eich hunain ynddo, i drwsio
“a threfnu eich gwallt a'r wisg, er gosod
“eich hunain allan yn y modd goreu i dynu
“sylw a chael eich gweled, nag a dreul-
“iasoch ar eich gliniau mewn gweddi am
“gael gweled yr Iesu.”

Pan ddaeth at ei destyn i draethu am
y dymestl arswydlawn oedd yn cynhyrfu
enaid y Gwardwr hyd ei waelodion ar yr
awr hono, yr oedd y lle rywbeth yn debyg
i Sinai ddydd y Gymanfa pan ddywedodd
Moses, “Yr ydwyf yn ofni ac yn crynu.”
“Yr oedd holl nerthoedd y gwyntoedd, o'r
“Nefoedd a'r ddaear ac uffern, yn cydym-
“grynhoi i gydruthro arno; ond yn yr ardd
“y noson ganlynol y disgynodd nerth y
“dymestl drymaf arno—melldith y ddeddf,

“cynddaredd gallu y tywyllwch, a chyn-
“ddaredd dynion, a’r Tad yn cuddio Ei
“wyneb, cleddyf cyfiawnder yn deffro, ac
“fel yn neidio o’i wain i’w drywanu a’i
“ddryllio, ac ‘o’r bobl nid oedd un gydag
“‘ef,’ Ei ddysgyblion yn cysgu yn y fan
“acw. Disgynodd un angel caredig oedd
“yn dyst o’r olygfa i gynyg llaw o gymorth
“ei gydymdeimlad iddo, ond Ei fraich Ef
“ei Hun yn unig a’i cynhaliodd yn ym-
“drech yr ardd, ac yn ymdrech yr awr
“hon hefyd. Llefodd allan,—a llef oedd
“hono na chlywsai’r ddaear, na’r Nefoedd
“chwaith, ac ni chlywant byth, lef debyg
“iddi,—‘Beth a ddywedaf? O Dad, gwared
“‘fi allan o’r awr hon! Os yw bosibl, aed
“‘y cwpan hwn heibio. Os yw yn bosibl,
“‘drwy ryw ffordd arall, gyflawni y bwr-
“‘iadau tragywyddol yn iachawdwriaeth
“‘dynion heb gymylu gogoniant Dy enw
“‘mawr, aed y cwpan hwn heibio.’ ”

Yn nghanol y tymor adfydus hwn arno
ef, yn haf 1836, aethwn i Bwllheli,—y tro

cyntaf erioed i mi fod yno,—i gyfarfod blynyddol capel Penlan (ychydig cyn hyny buasai farw y Parch. D. Roberts, gweinidog yr Annibynwyr yn Ninbych). Yn fuan wedi dechreu gwasanaeth oedfa yr hwyr cyntaf, gwelwn Michael Roberts yn dyfod i mewn yn fryslog,—trodd pob llygad yn y lle ei olwg arno (a hono oedd yr adeg gyntaf i mi weled Dewi Wyn hefyd). Deuai M. Roberts rhag ei flaen tua'r pwlpudd, a throdd i gôr ar y llaw aswy i'r pregethwr. Edrychai yn lled anesmwyth a chynhyrfus weithiau, gan godi ar ei draed yn ddisymwth, a thaflu cipolwg ar y pregethwr ac ar y bobl o amgylch, ac eistedd i lawr drachefn, ond cadwodd yn ddystaw trwy yr oedfa. Pan oeddwn yn dyfod i lawr o'r pwlpudd, unionodd tuagataf, ac heb wneud un cyfarchiad blaenorol, nac estyn ei law, dywedodd yn awdurdodol iawn: "Yr wyt ti i fyn'd i Ddinbych"—(yn Mostyn yr oeddwn i y pryd hwnw)—"y mae Mr. Roberts, gweinidog Lôn Swan, wedi marw, fel y gwyddost ti, ac fe gais y bobl genyt

ti fyn'd yno, ac y mae Michael yr Archangel yn dweyd wrthyt ti am fyn'd yno;" ac ymaith âg ef.

Nid oeddwn i erioed wedi meddwl na dysgwyl cael gwahoddiad i fyned i Ddinbych, ac nid oedd neb yn Ninbych, ychwaith, hyd y gwyddwn i yr amser hono, wedi son na meddwl dim am hyny. Fodd bynag, yn mhen rhai wythnosau wedyn yr alwad o Ddinbych a ddaeth, ac i Ddinbych yr aethum inau, fel y dywedasai ac y gorchymynasai "Michael yr Archangel" o Bwllheli i mi. Wedi derbyn yr alwad oddiwrth yr eglwys yn Ninbych, meddyliais lawer iawn am y dygwyddiad hwnw yn Mhwllheli. Yr oedd yr eglwys Annibynol yn Rhosllanerchrugog yn daer iawn yr un amser am i mi fyned yno, yn olynwr i'r hwn a barchwn ac a garwn yn benaf o bawb—yr anfarwol Williams, yr hwn oedd newydd symud oddiyno i Liverpool, ac yr oedd yntau yn bur awyddus am i mi fyned i'r Rhos a'r Wern, er na fynnai bwysu yn

drwm arnaf. Bu y Rhos a Dinbych, un yn mhob pen i'r glorian yn mantoli am beth amser; fodd bynag, Dinbych a droes y glorian, ac yr oedd gorchymyn pendant, awdurdodol "Michael yr Archangel" yn pwysu yn o drwm yn y pen hwnw i'r glorian.

Ond parhau a chryfhau yr oedd ei anhwylddeb arno ef o hyd, nes y gwasgwyd ei deulu a'i gyfeillion i'r angenrheidrwydd poenus o'i gyflwyno i ofal a thriniaeth y meddygon yn y gwallgofdy gerllaw Caerlleon, megys y gwnaed yn achos yr enwog Robert Hall rai blynyddau cyn hyny, ac yno y bu am ystod dwy flynedd neu fwy. Am derfyniad hynod y tymor adfydus hwnw, caiff y llythyr canlynol a dderbyniais oddiwrth fy anwyl gyfaill, y Parch Owen Jones, Llandudno, lefaru, yr hwn a ddarllenir yn ddiau gyda dyddordeb nid bychan gan bob un y dygwyddo i'w lygad syrthio arno. Fel hyn y dywed:—

"Ar ryw adeg pan oedd y diweddar
"Barch. Michael Roberts wedi bod dalm o

“ amser yn y gwallgofdy yn Nghaerlleon,
“ dygwyddai fod nifer o swyddogion eglwysig
“ y Trefnyddion Calфинаidd yn y Wyddgrug
“ wedi cyfarfod yn nhŷ un o'r frawdoliaeth
“ ar ddechreunos, a throes yr ymddyddan
“ yn naturiol at y ffaith fod gweinidog mor
“ alluog ac anwyl yn ngafael y fath an-
“ hwyldeb a than y fath gwmwl; ac yn
“ ystod yr ymddyddan awgrymodd un o'r
“ brodyr y dymunoldeb o droi y cyfarfod
“ eglwysig yr wythnos ganlynol yn gyfarfod
“ gweddi neillduol i daer erfyn am ei ad-
“ feriad i'w iawn bwyll, fel y gallai fod yn
“ ddefnyddiol eto yn y weinidogaeth, i'r hon
“ y buasai yn addurn mor ddysglaer am
“ flynyddoedd lawer. Y nos Sabboth gan-
“ lynol rhoddwyd yr awgrymiad o flaen
“ yr eglwys, ac fe'i cymeradwywyd ef yn
“ wresog; a'r canlyniad fu i'r aelodau
“ eglwysig ymgynull yn dra lluosog ar noson
“ y *Seiat* ganlynol, a chymerodd chwech neu
“ saith o'r brodyr ran yn ngwasanaeth
“ cyhoeddus y cyfarfod. Gwelid yn amlwg
“ fod Pen yr Eglwys wedi eu bedyddio âg

“ysbryd gweddi i raddau helaeth iawn, ac
“amlygid y teimlad dwysaf gan yr holl
“frawdoliaeth gynulledig. Wedi terfynu y
“cyfarfod, fel yr oedd y swyddogion yn y
“sêr fawr yn ymddyddan â’u gilydd, gan
“ddatgan eu hyder fod yr Arglwydd yn
“amlwg yn foddllawn, a’u crediniaeth yr
“atebid eu deisyfiadau yn raslawn, gwelid
“gwr dyeithr, o ymddangosiad clerigawl,
“yn cyfeirio tuagatynt, yr hwn a’u cyfarchai
“yn foesgar, gan ddywedyd mai gweinidog
“oedd ef i gynulleidfa berthynol i gyfundeb
“yr Arglwyddes Huntingdon yn Warrington,
“a’i fod wedi cyraedd y dref gyda’r cerbyd
“y prydawn hwnw, ar ei ymweliad â
“Chymru er adnewyddiad iechyd a nerth;
“ac ar ei fynediad drwy y dref gyda’r hwyr,
“iddo ganfod lluwys o bobl yn cyfeirio
“tua’r lle addoliad hwnw, a dyfod i fewn
“gyda hwy. Ychwanegai, er nad oedd yn
“deall gair o’r gwasanaeth, na theimlasai
“gymaint o ysbryd addoli yn ei feddianu
“mewn unrhyw gyfarfod crefyddol erioed
“o’r blaen; a chan ei fod yn credu fod

“ganddynt ryw achos neillduol yn fater
“i’w gweddïau, dymunai gael gwybod beth
“ydoedd, o’r hyn y’i hysbyswyd. Wedi
“clywed hyny, dywedai fod y teimlad dwys
“a amlygid gan y gweddiwyr a’r gynull-
“eidfa yn argyhoeddi ei feddwl ef fod a
“fynnai yr Arglwydd âg ateb eu deisyf-
“iadau.

“Y dydd Gwener canlynol yr oeddwn yn
“myned i Lerpwl i gyfarfod y Sulgwyn,
“ac yn mhen ychydig wedi cyraedd ohonwyf
“y lletty yn Byrom Street, deuai y di-
“weddar Barch. John Parry o Gaer, yr
“hwn a arferai lettya yn yr un tŷ, i
“fewn, i’r hwn yr adroddais hanes y cyf-
“arfod gweddi hynod yn y Wyddgrug y
“noson hono; a’r henafgwr parchus, gan
“gymeryd dyddordeb, a ddywedai yr elai
“i ymweled â Mr. Roberts ar ei ddy-
“chweliad adref y dydd Mawrth canlynol;
“ac efe a wnaeth yn ol ei air. Pan
“gyrhaeddodd efe y lle, ac un o henuriaid
“parchus yr eglwys yn y Wyddgrug (Mr.

“Angel Jones) gydag ef, hwy a gawsant
“Michael Roberts yn ei iawn bwyll, yn eu
“hadnabod, ac yn ymddyddan â hwy yn
“siriol. O’r diwedd, dechreuasant fynegi
“iddo am y cyfarfod gweddi, ac efe a
“ofynai yn awchus iddynt pa bryd y buasai
“hyny. A phan fynegasant hyny iddo,
“dywedodd, ‘Dyna’r awr y teimlais fy
“‘ymwybyddiaeth o’r sefyllfa yr oeddwn
“‘ynddi yn dychwelyd ataf;’ a chan droi
“at Angel Jones, dywedai yn mhellach,
“‘Dywedwch wrth yr eglwys yn y Wydd-
“‘grug fy mod yn hyderus y caiff hi weled
“‘Michael dlawd yn ei phwlpud eto, a dy-
“‘wedyd, ‘Am y plentyn hwn y gweddiäais.’”

“Anwyl frawd, yn ol eich dymuniad, yr
“ydwyf yn anfon yr hanesyn uchod i chwi,
“gyda chyflawn ryddid i chwi wneud unrhyw
“ddefnydd ohono a farnoch yn gymwys.

“Ydwyf, anwyl frawd,

“Yr eiddoch yn gywir,

“OWEN JONES.

“Y Parch. W. Rees.”

“Beth gan hynny a ddywedwn ni wrth y pethau hyn?” Y mae llawer o bethau i’w dywedyd wrth ac oddiwrth y pethau hyn na chawn aros i’w holrhain yn awr, ond cymaint a hyn, “Nid mewn congl y gwnaed y pethau hyn,” ac nid mewn congl nac mewn conglau y dylasent gael eu gadael cyhyd. Hyd y gwn i, mewn conglau rhwng cyfeillion yn unig, y bu siarad am danynt. Dylasent gael eu gwneuthur yn hysbys i’r cyhoedd drwy y Wasg. Y mae y cyfryw hanesyn yn werth deng mil o gyfrolau o lawer o bethau a gyhoeddir yn feunyddiol yn ein papyrau yn Nghymru ac yn Lloegr hefyd. Nid hen chwedl wedi disgyn i ni oddiwrth y tadau trwy draddodiad ydyw hon; er nad ydym i wrthod traddodiadau felly fel pethau annheilwng o grêd, eto y mae hanesyn fel yr un uchod yn dyfod arnom gyda mwy o nerth a sicrwydd gwirionedd na thraddodiadau. Y mae yn fyw yn awr dri o dystion (ac fe ddichon amryw eraill) oeddynt yn bresenol yn y cyfarfod gweddi hwnw, sef y Parch. Owen


Jones (ysgrifenydd y llythyr blaenorol) a'r Parch. Roger Edwards, a Mr. Jones (yn awr o Lanelwy), mab i'r diweddar Angel Jones o'r Wyddgrug. Y mae y gyfryw ffaith yn dywedyd wrthym, "Bydded genych ffydd yn Nuw" fel Gwrandawr gweddi. "Llawer a ddichon taer weddi y cyf-iawn;" ac yr oedd y "daer weddi" ar ei goreu, dybygid, yn y cyfarfod hwnw, a hi a wnaeth ei gwaith hefyd. Clywsom un o'r rhai oedd yn bresenol yn sylwi fod pob un a gymerodd ran gyhoeddus yn y gwasanaeth yn llawer iawn uwch nag ef ei hun ar adegau eraill, ac fod un—Mr. Thomas Owen, yr hwn oedd yn bregethwr cymeradwy, ond yn nodedig uwchlaw ei holl frodyr mewn gweddi—y tro hwnw yn nodedig uwchlaw Thomas Owen ei hun. "Dyna Dy was Di, Arglwydd," meddai, "wedi ei gau yn nghanol gwallgofiaid yn "y tŷ yna yn Nghaer. Ow! ow! Dy "was Di ydi o, a 'does dim gwadu nac "amheu i fod ar y mater. Ti a'i cododd "ef. Ti a'i doniaist yn helaeth, ac a'i

“harddelaist ef yn amlwg iawn, lawer o
“weithiau. Datod rwymau Dy was, Ar-
“glwydd! Datod ei rwymau ef, a gollwng
“ef yn rhydd, a ninau a glodforwn Dy
“enw.”

Yn ddiarwybod iddynt hwy yn y Wydd-
grug, yr oedd Duw eisoes wedi ateb eu
gweddïau, megys yr atebodd weddïau yr
eglwys hono yn nhŷ Mair yn Jerusalem
am iddo ddatod rhwymau Ei was Simon
Pedr, oedd yn y carchar gan Herod, ac
yn rhwym mewn cadwynau. Cyn i'r eglwys
yn nhŷ Mair roi fyny i weddi, yr oedd
yr angel o'r Nef wedi datod rhwymau
Pedr, ac agor drysau y carchar, a'i arwain
ef allan; a phwy a ddaeth i *ddisturbio* y
cyfarfod yn nhŷ Mair, tra yr oedd rhyw
Thomas Owen ar ganol ei weddi, ond Simon
Pedr ei hun, gan “barhau i guro” y drws,
a phan ddaeth i mewn prin y gallai gael
gan y gweddiwyr gredu fod eu gweddïau
wedi eu hateb, ac mai Pedr ei hun mewn
gwirionedd oedd yno. Pur debyg i hyny

ydyw hanes y cyfarfod gweddi hwnw yn y Wyddgrug. Ar yr awr hono, fel y gwelsom, y datodwyd cadwynau Michael Roberts, a dichon mai ar y funyd hono, pan oedd Thomas Owen yn curo mor drwm wrth borth y Nefoedd, gan ddywedyd, "Datod rwymau Dy was," y gwnaed hyny. "Beth bynag a ofynoch mewn gweddi, credwch y derbyniwch, ac fe fydd i chwi."





PENNOD V.

Y Diwedd.

“All's well that ends well.”

DODWYD hanes yr adfyd, a'r adferiad ohono, yn niwedd y bennod flaenorol; ac y mae yr hanes a'r adgofion am y diwedd arall—a'r olaf—i'w hadrodd yn awr. Yr oedd ei fywyd, fel y gwelsom, yn ymranu i dri chyfnod, *boreu*, *prydnawn*, a *hwyr*. Cyfododd haul ei foreuddydd yn ddysglaer a hyfryd iawn, ac aeth rhagddo yn ei nerth, a'i wres a'i oleuni yn cynhyddu fwy-fwy hyd haner dydd. Yn y prydnawn dechreuodd dywyllu: cododd cymylau duon a bygythiol, ac ymdaenasant drosto am oriau hirfeithion lawer. “Nid dydd ac nid nos” chwaith ydoedd, ond “cyfododd goleuni yn yr hwyr,” a thywynodd eto am rai oriau, yna machludodd yn ei ogoniant.

Yr oedd yr estron—yr anhwylddeb gorphwyllog a ddaethai arno—wedi bwyta cryfder ei natur, yr hwn ni buasai erioed ond eiddil mewn cymhariaeth, fel na ddaeth byth i'w feddu i'r un graddau ag o'r blaen; ac wedi i'r estron hwnw gael ei ymlid ymaith, daeth ei hen gydymaith poenus, yr *asthma*, yn ol i gymeryd ail feddiant ohono drachefn, ac analluogodd ef i fyned o amgylch i bregethu ond yn achlysurol. Fel hyn y dywedai ysgrifenydd yr erthygl hono yn yr *Amserau* gynt am y tymor diweddaf hwn o'i oes:—"Aeth i'r Gym-
"deithasfa yn y Bala yn 1848—y ddiweddaf
"iddo ef. Y fath gyfnewidiad er pan fuasai
"yno o'r blaen! Ei hen gydlafurwyr ar
"y Green hwnw—J. Elias, E. Morris, E.
"Richard, ac eraill—pa le y maent hwy?
"Oll wedi myned! Ychydig iawn o'r hen
"wynebau ac o'r hen leisiau oedd i'w
"gweled a'u clywed yno yn awr. Safodd
"i fyny yn oedfa ddeg yn y boreu, ac wele
"filoedd o lygaid yn pelydru gan awydd
"cael golwg arno eto, ac am y tro olaf.

“Ie, Michael Roberts yn wir ydyw! Dyna
“y wyneb llwyd, ond lluniaidd a gweddeidd-
“lwys, a’r llygad tlws, perlog, a adwaenir
“yn dda gan bawb o’r rhai a’i gwelsent
“ac a’i hadwaenent gynt. Dyna y llais
“pereiddfwyn, treiddiol hwnw a gofia yr
“adsein-feini yn muriau tai tref y Bala
“yn dda, ac a adseiniant iddo heddyw am
“y tro olaf byth.”

Ni ddygwyddodd i mi gael cyfleusdra i’w
wrando yn pregethu ar ol ei adferiad o’i
anhwyldeb. Y mae yn taro i’w meddwl
y foment hon am y penill Salm hwnw a
roddodd allan i’w ganu o flaen y bregeth
hono yn Llanrwst yn 1818, y rhoddwyd
cofnodion ohoni yn yr ail bennod, fel ped
fuasai yn brophwydoliaethol am yr hyn
oedd i ddyfod cyn hir:—

Ohono Ef, a thrwy Ei rym,
Daw iechyd im’ o’w hanhwyl.

Yr oedd hyny ychydig flynyddau cyn dyfod
yr anhwyl hwnw arno, ac “ohono Ef a

thruwy Ei rym" mewn modd nodedig, ac mewn atebiad i weddi yr eglwys yn y Wyddgrug, y daeth iechyd ac ymwared iddo, mor ddynodol ac amlwg ag y daeth ymwared i Pedr o garchar Herod mewn atebiad i weddi yr eglwys yn Jerusalem.

Gwelais ef unwaith yn fuan ar ol ei adferiad, ar fy nychweliad trwy Bwllheli o Gymanfa Nefyn yn 1845, os wyf yn cofio yn iawn. Golwg isel a gwanaidd oedd arno y pryd hwnw. Yr oeddwn dan brofedigaeth i grybwyll wrtho am fel y gorchymynasai i mi, ar awdurdod "Michael yr Archangel," i fyned i Ddinbych, ac fel ddarfod i mi ufuddhau i'r gorchymyn hwnw, ond ofnais rhag y gallasai cyfeiriad at y tymor hwnw ddolurio ei feddwl tyner.

Yn y flwyddyn 1848 y bu y cyfarfyddiad dedwydd a ddygodd ein dwy galon at eu gilydd, ac a'u cylymodd wrth eu gilydd â rhwymau cariad a serchowgrwydd mawr. Aethwn i Bwllheli i gyfarfod blynyddol yn

nghapel Penlan, yn Medi neu Hydref. Yr oedd y ddarlith ar Williams o Bantycelyn yn mlodau ei hieuenctyd y pryd hwnw—traddodid hi yn Mhenlan ar nos Lun, yr wyf yn meddwl. Yr oedd y cyfarfod pregethu i ddechreu nos dranoeth. Pan welwn ef yn dyfod i mewn ar ddechreu y cyfarfod, teimlwn braidd yn eiddigus na chawswn ef yn gadeirydd am unwaith, ond nid felly y gwelsai y Pwllheliolion bethau yn dda drefnu iddi fod; ofnent ofyn hyny iddo oherwydd ei lesgedd, meddent. Dywedodd ychydig eiriau trydanol ar y diwedd, a daeth yn mlaen ataf yn siriol iawn, ac meddai, “Yr ydych yn rhydd trwy y dydd yfory, deuwch acw atom i dreulio y diwrnod. Yr wyf wedi addaw i mi fy hun er’s dyddiau y cawn eich cymdeithas am yfory—deuwch yn foreu, ar ol brecwast.” “Mi a ddeuaf, Mr. Roberts,” meddwn, “a bydd yn bleser mawr genyf ddyfod.” Ac felly fu; aethum yno, a mawr a llawen oedd fy nghroesaw. Yn nghwrs ein hymddyddan adroddai lawer am y pregethwyr cyntaf

oedd ef yn gofio—Jones o Langan, Dafydd Morris; ac eraill o'r rhai diweddaraf y buasai efe yn cydlafurio â hwy—y ddau Ebenezer, Morris a Richard, Richardson o Gaernarfon, ac Elias o Fon, ac yn enwedig ei ewythr o Glynog. Soniai am ei frodyr hyny gyda pharch ac anwyldeb mawr, ac am ei ddiweddar gymydog a'i gyfaill, y Parch. Benjamin Jones, Caeau Gwynion, gweinidog yr eglwys Annibynol yn Mhenlan. “ Bu cyfeillgarwch agos ac anwyl
“ rhyngom am flynyddau, ac y mae genyf y
“ parch mwyaf i'w goffadwriaeth. Ystyriwn
“ ef yn un o'r duwinyddion goreu a feddem
“ yn Nghymru yn ei ddydd. Ond methais
“ rywfodd a chael gafael cyfaill yn ei ol-
“ ynydd, Mr. Lewis. Cafodd yr achos yn
“ Mhenlan ei niweidio a'i wanhau yn fawr
“ yn yr anghydfod a dorodd allan rhwng
“ Mr. Lewis a'r eglwys; cyn hyny, yr oedd
“ yr achos yn Mhenlan yn llewyrchus iawn,
“ ac amryw o'r teuluoedd parchusaf yn y
“ dref yn perthyn iddo. Ymadawodd amryw
“ ohonynt â'r lle yn herwydd yr anghydfod

“hwnw. Ni ddaeth yr achos yn Mhenlan
“byth wedi hyny, hyd yma, i’r peth fuasai
“cyn hyny.”

Adroddai hanes ei daith bregethwrol gyntaf gyda’i ewythr, R. Roberts o Glynog, drwy sir Ddinbych, yn fuan wedi iddo gael caniatad Cyfarfod Misol sir Gaernarfon i fyned i’r holl fyd Cymreig i bregethu yr Efengyl,—a hwnw oedd y tro cyntaf iddo ef weled y parth hwnw (sir Ddinbych) o’r bydysawd. “Cyrhaeddasom Ddinbych,” meddai, “yn gynar ar brydnawn dydd
“gwaith. Yr oeddym i lettya mewn gwestty
“a elwid ‘Yr Hand.’ Wedi doddi ein *ponies*
“dan ofal yr *ostler*, a myned i’r tŷ, galwai
“f’ewythr ar y wraig a gofynai a wyddai hi
“a oedd Thomas Edwards (*Twm o’r Nant*)
“gartref. ‘Ydyw,’ atebai y wraig; ‘bum
“‘yn siarad â Thomas Edwards gyneu ar
“‘y stryd yna.’ ‘A welwch chwi yn dda
“‘anfon gair ato y dymunwn gael ei weled
“‘os gall ef hebgor amser i redeg yma am
“‘funyd?’ Hyny a wnaed, a daeth Thomas

“ar y gair. Yr oedd Thomas Edwards yn
“edmygwr mawr o fewythr, a gwyddai ef
“yn dda y gwahaniaeth rhwng pregethwr
“a phregethwr. Dywedid y byddai golwg
“ddiflas iawn ar wedd Thomas wrth wrando
“ambell bregethwr. Parai ei weled ef yn
“bresenol mewn oedfa ofn a dychryn ar
“aml bregethwr druan. Y mae chwedl am
“dano ei fod un tro, ar oedfa brydnawn
“Sabbath trymllyd yn yr haf, wedi ym-
“ollwng i gysgu yn y côr lle'r eisteddai,
“a'i wraig, oedd yn eistedd wrth ei ochr,
“yn ei bwnio â'i phenelin i'w ddeffro.
“‘Gâd lonydd i mi,’ ebai wrthi; ‘nid oes
“‘dim byd i'w golli yma heddyw; mi elli
“‘dithau gysgu—ni waeth i ti hyny.’ Ond
“i ddychwelyd at yr adroddiad. Yn fuan
“wedi i Thomas Edwards ddyfod i mewn
“atom, galwodd am bin ac inc a phapyr,
“ac ysgrifennodd englyn i wahodd gŵr o'r
“enw William Phenah, oedd yn byw yn y
“‘Swan,’ i ddyfod atom. Yr oedd William
“Phenah yn ŵr cyfrifol iawn yn y dref, yn
“mhell uwchlaw i'r cyffredin mewn gwy-

“bodaeth a galluoedd meddwl. Rywbeth
“yn debyg i hyn oedd yr englyn:—

“ William, taro gam tuag yma;—gâd y byd,
“ Gyda'i boen,—prysura;
“ Buan derfydd dydd da,
“ Yn ddiau nos a ddaw nesa'.

“Prysuroidd William Phenah atom, a bu
“yno gyfeillach siriol a difyrus iawn. Nid
“oeddwn i yn cymeryd un ran ynddi, ond
“fel y gweddai i fachgenyn ieuanc, yn eis-
“tedd yn ddystaw i wrando ar ddoethineb
“yr henafgwyr. Yr oedd llawer yn edrych
“ar f'ewythr fel rhyw fôd goruwch-ddynol
“a -daearol, nad oedd yn edrych ar, nac
“yn meddwl am, ddim oll a berthynai i'r
“byd a'r bywyd hwn, ac na fynnai ddal
“cymdeithas â neb yn mron. Y gwir yw,
“un rhydd a siriol iawn yn ei gyfeillach
“oedd ef, pan darawai wrth gyfeillion o'r
“fath a hoffai.

“Rywbryd yn y gyfeillach hono, apeliai
“f'ewythr at Thomas Edwards, gan ofyn,
“‘Ai nid ydych yn arfer iaith a geiriau

“rhy fras a gerwin yn eich caniadau i
“bersoniaid a stiwardiaid? Oni allech fod
“dipyn yn fwy cymedrol wrth eu ceryddu,
“ac oni feddyliech yr atebai hynny well
“dyben?’ ‘Nac ydwyf fi’n siwr, ddim yn
“meddwl felly,’ oedd yr ateb. ‘Ffol fyddai
“i ddyn wisgo menyg *kid* am ei ddwylo
“i drin drain a mieri; a’r *sort* hono o
“ddynion ydyw deiliaid fy ngweinidogaeth
“i, a rhaid cael menyg o groen ci môr
“(shark) i’w trin ac i’w *rhaspio* hwy.
“Byddwch chwithau yn dweyd pethau
“gerwin wrthym ni o’r pwlpudd yn aml,
“ond y byddwch chwi yn eu gwisgo â
“gwedd fwy duwiol. Ni wnai eich *style*
“chwi mo’r tro i mi, mwy nag y gwnai
“fy *style* inau i chwi.’”

Adroddodd am daith arall, yr aethai gyda’i ewythr drwy sir Fôn, ac oedfa nodedig iddo yn rhywle yno ar noson waith, ar y geiriau, “*Yr hwn, yn lle y llawenydd a osodwyd iddo, a ddyoddefodd y groes, gan ddiystyru gwaradwydd, ac a*

eisteddodd ar ddeheulaw gorseddfainc Duw.”

“Desgrifiai y groes fel march gwyllt, ar-
“swydus, heb ei dori a'i ddofi erioed. Y
“boen a'r gwaradwydd mwyaf a allodd
“dynion erioed ddyfeisio i'w gosod ar adyn
“ysgymun o droseddwr oedd ei osod i farch-
“ogaeth ar y march du ac ofnadwy hwnw.
“Cytunodd Herod a Phontius Pilat, a hen-
“uriaid a phobl yr Iuddewon, yn nghyda
“holl ddyhiriaid y fall, i osod ein Gwardwr
“i eistedd arno. Ac Efe a'i *mountiodd*
“ef. Yr oedd y march yn gwylltio ac yn
“cynddeiriogi yn arswydus, a chŵn a llewod,
“ac unicorniaid a theirw—galluoedd y ty-
“wyllwch—yn cyfarth, yn ysgyrnygu, yn
“rhuo, ac yn cornio oddiamgylch yno, a
“lluoedd o ddynion yn llefain, yn cablu ac
“yn gwawdio, gan ysgwyd eu penau a
“llaesu eu gweflau arno, i ysparduno y
“march, a'i wneud yn fwy cynddeiriog.
“Methodd natur a dal yr olygfa hono,
“—tywyllodd yr haul, crynodd y ddaear,
“holltodd y creigiau, rhwygodd llèn y deml,
“agorodd y beddau, dihunodd llawer o'r

“saint a hunasent, a daethant allan o’u
“beddau y trydydd dydd ar ol hyny. Yn
“ystod oriau y tywyllwch a’r terfysg ofn-
“adwy hwnw drwy holl naturiaeth, Efe a
“yrodd y march (y groes) ar draws y cŵn
“a’r llewod, y teirw a’r unicorniaid, nes
“oeddynt yn gelaneddau archolledig dan
“Ei draed. ‘Ysbeiliodd y tywysogaethau
“‘a’r awdurdodau, gan orfoleddu arnynt
“‘arni hi,’ y groes; ac nid yw hi yr un
“peth byth *wedi* hyny, ar ol iddo Ef ei
“dofi a’i gwareiddio, ag a fuasai *cyn* hyny.
“Gorfoleddodd Ef ar Ei holl elynion *arni*
“hi, ac y mae y credadyn yntau yn gor-
“foleddu *ynddi* hi byth. ‘Na ato Duw,’
“meddai un, ‘i mi ymffrostio ond yn
“‘nghroes ein Harglwydd Iesu Grist.’ Ond
“beth wedyn? Y gogoniant ar ol hyny;
“‘eistedd ar ddeheulaw gorseddfainc Duw’
“ar ol hyny; ‘tra dyrchafu goruwch yr holl
“‘Nefoedd’ ar ol hyny, yn Ben ‘pob
“‘tywysogaeth ac awdurdod, a gallu ac
“‘arglwyddiaeth, a phob enw a enwir, nid
“‘yn unig yn y byd hwn, ond hefyd yn

“‘yr hwn a ddaw,’ a phob glin i blygu
“iddo, o’r nefolion, a’r daearolion, a than-
“ddaearolion bethau. Gwneir, fe blygir
“dy lin dithau,—na phlygodd erioed iddo
“hyd heno. Y mae llŵ Jehofa wedi ei
“wystlo ar y mater. Plyga iddo heno.
“‘Yn awr yw yr amser cymeradwy.’” Yr
oedd yr effeithiau ar y dyrfa yn annes-
grifiadwy, meddai; a hawdd y gallwn gredu
pan feddylion am y fath ymadroddion yn
cael eu tywallt allan gyda holl nerth
angerddoldeb yr enaid tanllyd hwnw.

Pan oeddwn ar gychwyn i’r capel yr
hwyr hwnw, dywedodd: “Yr wyf wedi
addaw dyfod i Liverpool unwaith eto, a’r
tro olaf i mi yn ddiâu, y Sul cyn a’r Sul
ar ol y Nadolig nesaf, ac yr oeddwn wedi
meddwl am dreulio y Sul canlynol gyda
chwi os bydd hyny yn dderbyniol genych.”
“Ni allai dim yn y byd fod yn fwy der-
byniol genyf fi na hyny,” atebwn; “ac y
mae genyf ffafr arall i’w gofyn, yr hon,
mi a obeithiaf, na omeddwch i mi, a hyny

yw, dyfod i aros yn ein tŷ dros yr wythnos hono." "Diolch i chwi; bydd yn dda genyf ddyfod, a chaiff fod felly os byddwn byw," eb efe. Yr oeddwn yn llawenhau fel un wedi cael ysglyfaeth lawer wedi cael yr addewidion hyny, ac edrychwn yn mlaen at yr amser gydag awyddfryd mawr am ei ddyfodiad. Yr oedd hyny rhyw ddau neu dri mis cyn y Nadolig. "‘Fe lettyodd rhai angelion yn ddiarwybod,’" meddwn ynof fy hun, "ond caf fi y ffraint o lettya archangel," gan gofio am ei eiriau y tro o’r blaen wrthyf pan orchymynai i mi fyned i Ddinbych. Llawer o ragddarpariadau a wnawn yn fy meddwl i’w ddyddanu a’i ddyddori am yr wythnos hono. Yr oedd fy mrawd, a’r Parch. J. Hughes, Mount Street y pryd hwnw, a’r cyfaill a’r cydlafurwr y Parch. T. Pierce, Bethel, i gael eu gwahodd i dreulio diwrnod gyda ni, a mawr oedd y diwrnod hwnw i fod, yn ol yr arfaeth am dano; ac fel yr oedd yr amser yn neshau, uwch, uwch y codai y dysgwyliaid. Ond och! dyrswyd yr

arfaethau, siomwyd yr holl obeithion a'r dysgwyliaid, a siomedigaeth chwerw iawn ydoedd. Ychydig cyn gwyliau y Nadolig hwnw, daeth y newydd i Liverpool fod Michael Roberts yn wael iawn, ac yn ol pob argoelion, fod y diwedd yn dyfod; ac yn nghorff yr wythnos ddilynol i'r hon, yn ol ein harfaethiad ni, yr oedd ef i'w threulio gyda ni yn Liverpool, efe a fu farw,—aeth i dangnefedd, i gymdeithas ac

At gyfeillion mil mwy hawddgar
Na neb a welwyd ar y ddaear.

Y tro cyntaf yr aethum i Bwllheli, yn mhen rhai wythnosau ar ol ei gladdu, daeth Mrs. Roberts, ei weddw, ataf ar ddiwedd yr oedfa mewn wylofain a dagrau, a dywedodd, "Am danoch chwi y soniodd efe ddiweddfaf y boreu y bu farw." Synais yn fawr. "Am danaf fi?" gofynwn. "Ie," atebai hi; "gofynais iddo a fuasai yn dewis i mi anfon at rywun neu rywrai o'r cyfeillion i ddyfod i ymweled âg ef. 'Na, nid yw o un dyben yn awr,—y maent hwy

wedi bod gyda mi yn aml.' Yn mhen enyd dywedodd, 'Pe buasai William Rees yn agos, buasai yn dda genyf ei weled o.' 'William Rees o Liverpool?' gofynwn. 'Ie.' 'Paham y darfu i chwi feddwl am dano ef, Michael bach?' 'Ni wn i ddim; ni fu ddim gwell gen i am neb ar y ddaear erioed nag am dano fo!'" Yr oedd, ac y mae, y fath dystiolaeth, gan y fath un, ar y fath amgylchiad, o werth na ellid ei "chydbrisio âg arian" yn fy ngolwg.





CYWYDD

..AR YR ADGOFION..

BLAENOROL.





Gywydd

AR YR ADGOFION BLAENOROL.

HEN GOFION mwynion i mi,
Am gedyrn wnaynt ymgodi
Dan 'y mron, er denu 'mryd
I ymwibio i fro'm mebyd,
Atynt am unwaith eto,
I'w cael o'r newydd i'm co'.

Rhinweddol gedyrn oeddynt,—
Mawr eu gwerth i Gymru gynt;
Deil'u henwau a'u dylanwad
Yn oesol lesol i'r wlad,
Tra bo haul hoew'n gloewi
Bronau heirdd ei bryniau hi.

Y'ngghwmni rhai garai gynt
I ail fyn'd dros eu helynt,
Hen wryn llwyd drŷ yn llanc,
I nwyfiant bachgen ifanc;

Hanes y cedyrn hyny
 Wyntia i ffwrdd henaint,—a ffy;
 Ail brancia, dawnsia hen dad,
 Un difyr, fel oen dafad.

Eu nodi oll, hyn nid ellir,—
 Ai y rhes enwau'n rhy hir;
 Un ohonynt a enwaf
 Yn awr, a'i eneinio wnafl:
 Yr hybarch Michael Roberth,
 Wr oedd uwchlaw aur o werth;
 Un imi na bu nemawr
 I neb dan wyneb y wawr
 Fwy anwyl, ac ni fynwn,
 Bid a fo, anghofio hwn.

Gwelaf ei wyneb gwiwlwys,
 A'i wedd lân, garuaidd, lwys,
 Mi gredaf mai gwir ydyw
 Yn ddi od ei fod yn fyw;
 Mae yn awr o fy mlaen i
 Yn ei hoen a'i hen yni.
 Dyma fe! diameu'i fod
 Yma o dan ryw amod,

A thremiad y llygad llon
A'i loew wydrog belydron
Yn t'w'nu pentewyniawn
Athrylith ddiledrith, lawn ;
Ni bu i'w gael dan ael neb
Un llawnach o gallineb,
A chraffder a doethder dawn,
A choeth hynod chwaeth uniawn.

'E dd'wedwch mai breuddwydio
'Rwyf, y'nghyflwr gŵr o'i go'—
Ewch ymaith! gadewch imi,
Breuddwydiwyf faint fynwyf fi ;
Ni wna hyn, yr wy'n honi,
Niwed na cholled i chwi.
Rhaid, os breuddwydio 'rydwyf,
Breuddwydio yn ŵr effro 'rwyf.
Ond im' gau'm llygad, mi gâf
Ei ddelwi fel meddyliaf
Am dano—a'i gofio gynt
Yn hwylus iawn ei helynt,
Yn dwyn harddwch dan urddas,
Yn Llanrwst yn llawn o râs,
Ar Galan oer y Gwyliau

Deunaw cant a deunaw i'w cau,
Ef, ar awr foreu'r wyl,
A erchid at ei orchwyl;
Dringai yntau risiau restr
I ffiniau 'ruchel ffenestr,
A'r awyr megys rhewen
Drwchus am ei barchus ben;
Eira gwyn, yn oer gaenen,
Dros y wlad a droisai lèn.
I'w antur safai yntef,
Awel oer fferai ei lef
Enyd—a thyrfa yno,
Fawr iawn, oedd ger ei fron o,—
Rhai o fewn a rhai o faes,
Yn dyrfa ar hyd oerfaes,
Yn enynu gan anwyd
Yn y lle, a'u gwedd yn llwyd.
O mewn, yn y capel mawr,
Ar enyd ddwys yr unawr,
'Roedd tyrfa dan dagfa dost
Yn trwytho mewn gwres trathost,
Ochus dorf, mewn chwys dirfawr,
Fel yn toddi'n lli' i'r llawr;
Tawch, yn gwmwl dwl, dulawn,

A wnai y lle yn fùll iawn,—
Anadl y tawch a'i lawch wleb
Yn donau'n codi i'w wyneb,
A'r tawch arall oddiallan—
Tawch rhew certh, tawch eira càn—
Y deudawch yn nghyd ydoedd,
Yn cydruthro arno, oedd.

Oddiar y sedd eres hon
Agorai'r enwog wron
Yn daer ei genadwri,
Fawr ei gwerth, mewn nerth i ni.
'Nol iddo dwymno, pan daeth
I'w lifeiriol lefariaeth,
Yn y dorf gafaelai'n dÿn—
Ni ad'ai'i gollwng wedyn,
Daliai'i hanadl a'i henaid
Yn ei rîn,—gwrando oedd raid;
Anian newydd yn awyr
Wnaed, a llawn gyfnewid llwyr,
Calan Ionawr, awr oeraf,
Dro'i hîn calan-hefin hâf!
Anghofiwyd anwyd yno,
Ai y rhew certh a'r eira o'r co',

Pob mynwes yn gynes gaid—
Cynes y'ngorph ac enaid.

Rho'i ddarluniad ofnadwy
Rhyfeloedd a'u hingoedd hwy,
Dau gadflaenawr, rhwysgfawr hynt,
A dynion filoedd danynt;
Ant i'r gwaith ar antur gwyllt,
Yn ddreigiau cynddeiriogwyllt,
I lunio gwaith celanedd,
Trueni, i besgi'r bedd;
Trymion gyflegrau tramawr
Yn gyru mellt gyda grym mawr,
Teirw y gâd oeddynt ar g'oedd
Yn rhuo angeu trwy'r rhengoedd,
Meirch a dynion bron heb ri'
Drwy ingoedd yn cyd-drengi—
“Yn dyrau, fel y cydorwedd
Pabwyr neu wair, pawb 'run wedd,
Wedi i'r bladur dur ddarwain,
Yn ei rhwysg, ei mân drwy rhai'n.”
Maes y cedyrn chwyrn, Och! aeth
Yn ysgeler faes galaeth—
Maes y gwaed, a'r miwsig oedd

Wylofain a chrochlefoedd,
Adwyth miloedd clwyfedig
Dan archollion dyfnion dig;
Gwaedd amddifaid a gweddwon
Nodant helynt yr hynt hon;
A dinasau'n dân ysol,
Dim ond lludw yr ulw ar ol;
Pen llawer gwlad, ddufrad ddig,
Archollwyd yn erchyllig;
Engyl Iôr, mewn ingawl aeth,
Wylant uwchben dynoliaeth.

Ar hyn y storm derfynai,—
Ael y nef ymloewi wnai,
A'i ael ef, yn dawel lon,
Hithau siriolai weithon;
Dwysder a llymder y llais
Droi'n oslef feinlef fwynlais;
Llonai ef, lloni hefyd
Yn dirf wnai gwedd y dorf i gyd;
Yn awr y mae cymylau'r nen
Yn chwalu, ac iach heulwen
Ysgydwai'i gwisgi edyn
I roi hael hedd ar ol hyn,

A gweini meddyginiaeth
 I fyd prudd mewn cystudd caeth.
 Teyrnasiad tirion Iesu,
 A gwawl Ei Efengyl gu,
 Ddifa'r gorthrwm trwm a'r trais,
 Rhyfeloedd a'u hir falais;
 Eirf rhyfel mwy ni welir
 Yn un tŷ o fewn y tir,—
 'U hail eni ar ael einion
 Y Gô' tég ga'r giwed hon;
 Y cledd, hen elyn heddwch,
 A gura nes ä yn sŵch;
 A'r waewffon, ddigllon ddûr,
 Abl wedyn, drŷ e'n bladur;
 A'r fagnel gref, fu hefyd
 Yn rhuo barn ar y byd,
 Y Gôf a wna ei dofi,
 A ffrwyna ef ei ffroen hi;
 A'r frathog fidog, y fo—
 Y Gô'—esponia gosp hono,
 A'i throi'n gwman cryman crôg,
 I feddi, ga'r hen fidog.

“Iesu mawr deyrnasa mwy,

Waredydd clodforadwy—
Nofia'r byd mewn hyfryd hedd
Yn afon Ei dangnefedd;
Ei enw'n fawr iawn a fydd,
Rhed Ei glôd 'rhyd y gwledydd;
Yna hedd fydd mewn mwynhad
Tra y dyrch llewyrch lleuad
Ar y byd, a thra y bo
Hon ar hyd nen yn rhodio."

Ar hyny tawai y rhiniwr—
Dystaw aeth, a diystwr;
Y dorf yn fud funydyn,
Edrychai hi, safai'n sÿn—
Synedig dan swyn ydoedd—
Nefol swyn—un felus oedd:
Rhai yn gwenu'n gu eu gwedd,
A hygar iawn eu hagwedd,
A'r lleill, ym mhlith y rhai llon,
Wylent wrth fodd eu calon.
A hir y cedwir mewn co'
Hanes yr oedfa hono.
Hynyna'n awr ganwn ni
Yn dyner gôf am dani.



...Hugh Evans,...
Cambrian Printing Works,
444 Stanley Road,
Liverpool.



